



WALES **AUDIT** OFFICE
SWYDDFA **ARCHWILIO** CYMRU

Adroddiad Gwella Blynyddol **Cyngor Dinas Casnewydd**

Ionawr 2011



Adroddiad Gwella Blynyddol gan Archwilydd Cyffredinol Cymru

Ysgrifennir yr adroddiad hwn gan Swyddfa Archwilio Cymru ar ran Archwilydd Cyffredinol Cymru. (Ceir eglurhad o swyddogaeth yr Archwilydd Cyffredinol yn Atodiad 1). Adroddiad newydd ydyw y mae'n ofynnol iddo ei gyhoeddi o ran pa mor dda y mae cynghorau Cymru yn gwella'u gwasanaethau. Gyda chymorth arolygwyr eraill fel Estyn (ar gyfer addysg) ac Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru, rydym wedi llunio darlun o'r hyn y mae'r cyngor yn ceisio ei gyflawni; sut mae'n gwneud hynny; a'r hyn y mae angen i'r Awdurdod ei wneud i wella'r ffordd y mae'n gwella ei wasanaethau.

Mae'r Adroddiad Gwella Blynyddol hwn yn cyfleu'r darlun hwnnw a phob blwyddyn byddwn yn llunio adroddiad i roi gwybod i chi am y cynnydd y mae Cyngor Dinas Casnewydd (y Cyngor) wedi'i wneud. Nid ydym wedi ymdrin â phob gwasanaeth y mae'r Cyngor yn ei ddarparu. Rydym wedi canolbwyntio ar nifer fach o bethau, yn arbennig y pethau hynny y mae'r Cyngor wedi dweud yw ei flaenoriaethau o ran gwella.

Rydym am gael eich barn ar y gwasanaethau y mae'r Cyngor yn eu darparu yn eich ardal chi a chewch gyfle i gyflwyno sylwadau yn y dyfodol. Yn y cyfamser hoffem wybod a yw'r adroddiad hwn yn rhoi'r wybodaeth sydd ei hangen arnoch ac a yw'n hawdd ei ddeall. Gallwch fynegi eich barn drwy anfon e-bost at info@wao.gov.uk neu drwy ysgrifennu atom yn 24 Heol y Gadeirlan, Caerdydd CF11 9LJ.

Cynhwysai tîm astudio Swyddfa Archwilio Cymru a'm cynorthwyodd i lunio'r adroddiad hwn Steve Barry and Janet Villars o dan gyfarwyddyd Jane Holownia.

Paratowyd yr adroddiad hwn gan Swyddfa Archwilio Cymru ar ran Archwilydd Cyffredinol Cymru yn unol â gofynion Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009. Mae Archwilydd Cyffredinol Cymru yn asesu cydymffurfiaeth awdurdodau gwella Cymru (cynghorau sir, cynghorau bwrdeistref sirol, awdurdodau parciau cenedlaethol ac awdurdodau tân ac achub) â gofynion gwella Rhan 1 o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009.

Archwilydd Cyffredinol Cymru a'i staff gyda'i gilydd yw Swyddfa Archwilio Cymru. Am ragor o wybodaeth am Swyddfa Archwilio Cymru, ysgrifennwch at Archwilydd Cyffredinol Cymru, 24 Heol y Gadeirlan, Caerdydd, CF11 9LJ. Rhif ffôn: 02920 320500, e-bost: info@wao.gov.uk, neu gweler y wefan www.wao.gov.uk

©Archwilydd Cyffredinol Cymru, 2011

Cewch aildefnyddio'r cyhoeddiad hwn (heb gynnwys y logos) yn rhad ac am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng. Rhaid i chi ei aildefnyddio'n gywir ac nid mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint Archwilydd Cyffredinol Cymru a rhaid rhoi teitl y cyhoeddiad hwn. Lle nodwyd deunydd hawlfraint unrhyw drydydd parti bydd angen i chi gael caniatâd gan ddeiliaid yr hawlfraint dan sylw cyn ei aildefnyddio.

Cynnwys

Pa fath o ardal yw Casnewydd?	04
A yw Cyngor Dinas Casnewydd yn cael ei reoli'n dda?	05
A yw Cyngor Dinas Casnewydd yn gwybod beth sydd angen iddo ei wneud i wella?	08
A yw Cyngor Dinas Casnewydd yn gwasanaethu pobl yn dda?	12
A yw Cyngor Dinas Casnewydd yn cefnogi pobl mewn angen?	14
A yw Cyngor Dinas Casnewydd yn helpu pobl i ddatblygu?	18
A yw Cyngor Dinas Casnewydd yn helpu i greu lle diogel, ffyniannus a dymunol i fyw ynddo?	22
Beth ddylai Cyngor Dinas Casnewydd ei wneud?	28

Atodiadau

Atodiad 1 - Gwybodaeth am Archwilydd Cyffredinol Cymru a'r adroddiad hwn	29
Atodiad 2 - Gwybodaeth ddefnyddiol am Gasnewydd a Chyngor Dinas Casnewydd	31
Atodiad 3 - Asesiad Corfforaethol yr Archwilydd Cyffredinol	32
Atodiad 4 - Llythyr Archwilio Blynyddol Cyngor Dinas Casnewydd	33
Atodiad 5 - Amcanion gwella Cyngor Dinas Casnewydd	37
Atodiad 6 - Cyfeiriadau	38

Pa fath o ardal yw Casnewydd?

- 1 Saif Casnewydd yn y porth rhwng Cymru a Lloegr. Mae'r ddinas yn cwmpasu ardal ddaearyddol o ychydig dros 73.5 milltir sgwâr (190 km²). Caiff ei chroesi gan draffordd yr M4 sy'n ei chysylltu â Chaerdydd i'r gorllewin (lle mae llawer o'i thrigolion yn gweithio) a Sir Fynwy i'r dwyrain. I'r gogledd, saif Caerffili a Thorfaen, a'r arfordir i'r de. Dyma'r pumed awdurdod lleol lleiaf o ran maint yng Nghymru, ac mae'n cwmpasu 0.9 y cant o holl arwynebedd daearyddol Cymru.
- 2 Yn seiliedig ar amcangyfrifon 2009, 140,355 yw'r boblogaeth a dengys amcanestyniadau gynnydd o dros naw y cant erbyn 2033. Yn 2007 amcangyfrifwyd bod 59,513 o gartrefi yng Nghasnewydd. Yn 2009 dangosai'r proffil oedran fod tua 20 y cant o'r boblogaeth yn blant o dan 16 oed ac amcangyfrifwyd bod 17 y cant yn 65 oed neu'n hŷn. Golyga hyn fod Casnewydd ar y cyfan yn adlewyrchu tueddiadau poblogaeth ehangach yng Nghymru.
- 3 Ym mis Gorffennaf 2010, lefel diweithdra Casnewydd oedd y drydedd uchaf yng Nghymru. Roedd tua 4.9 y cant o'r boblogaeth oedran gweithio yn hawlio lwfans ceiswyr gwaith a chredydau yswiriant cenedlaethol. Y cyfartaledd yng Nghymru oedd 3.6 y cant.
- 4 Yng Nghasnewydd, mae cymdogaethau sydd â rhai o lefelau amddifadedd cymdeithasol uchaf y wlad yn ffinio â rhai o'r cymdogaethau mwyaf cefnog. Rhwng 1999 a 2009 roedd enillion yng Nghasnewydd yn uwch na'r cyfartaledd yng Nghymru er i'r bwlch gulhau ychydig dros y cyfnod hwn.
- 5 Mae dros draean o boblogaeth Cymru yn byw o fewn awr i'r ddinas a Chasnewydd yw'r ail gyrchfan fwyaf poblogaidd i gymudwyr yng Nghymru. Roedd 33 y cant o'r swyddi yn y sector gweinyddiaeth gyhoeddus, y sector addysg a'r sector gwasanaeth ieched yn 2008. Yn gyffredinol, amcangyfrifwyd bod 3,805 o fusnesau yn y ddinas, yn cyflogi tua 75,000 o bobl. Y prif feysydd busnes yw dosbarthu, cludiant a chyfathrebu (28 y cant), gweithgarwch ariannol a busnes (19 y cant), yna cynhyrchu (15 y cant).
- 6 Ceir rhagor o wybodaeth am Gasnewydd a'r Cyngor yn [Atodiad 2](#).

ardal ddaearyddol

190 km²

//////////

poblogaeth

140,355

//////////

20% yn 0-16 oed

17% yn >65 oed


//////////

A yw Cyngor Dinas Casnewydd yn cael ei reoli'n dda?

- 7 Mae rheoli sefydliad mor fawr gyda'i ystod eang o wasanaethau'n waith cymhleth iawn. Ym mis Medi llynedd, cynhyrchodd yr Archwilydd Cyffredinol adroddiad sy'n nodi mewn cryn dipyn o fanylder sut y mae'r Cyngor yn cael ei drefnu a'i reoli. Nodir ein canfyddiadau yn **Atodiad 3**. Os hoffech ddarllen Adroddiad yr Asesiad Corfforaethol yn llawn, mae ar wefan y Cyngor www.newport.gov.uk neu ar wefan Swyddfa Archwilio Cymru, www.wao.gov.uk.
- 8 Casgliad cyffredinol yr adroddiad hwn oedd bod yr arweinyddiaeth newydd yn dangos arwyddion o gryfder, gan sefydlu'r hyn sydd angen ei wneud er mwyn newid, a mynd i'r afael â materion hirsefydlog o ran rheoli ariannol, ond mae angen i'r Cyngor roi cynlluniau ariannol tymor hwy ar waith a datblygu ei gynlluniau ar gyfer newid ymhellach os yw'n mynd i barhau i wella.
- 9 Mae'r Cyngor yn addasu i newidiadau gwleidyddol a rheolaethol sylweddol. Mae'n rhoi camau ar waith nawr i wneud gwell defnydd o'i adnoddau, ac i gynllunio newidiadau a ddylai ei gwneud yn haws i bobl ddefnyddio ei wasanaethau yn y dyfodol. Mae angen o hyd iddo gysylltu ei gynlluniau hirdymor yn well â'i adnoddau a dangos yn gliriach sut y bydd yn defnyddio'i staff, ei asedau a thechnoleg i ddarparu gwell gwasanaethau yn fwy effeithlon.
- 10 Pan edrychasom ar yr hyn y bwriadai'r Cyngor ei wneud, nid oedd gwasanaethau unigol eto wedi cysylltu'r hyn y byddent yn ei wneud â'r hyn y mae'r Cyngor yn ei gyfanrwydd yn bwriadu ei wneud. Mae hyn yn bwysig am fod y Cyngor eisiau gwneud nifer o welliannau, ac mae angen iddo sicrhau bod ei wasanaethau mewn sefyllfa i'w cyflawni. Mae gwasanaethau'n gweithio ar eu cynlluniau nawr a byddwn yn cadw llygad ar gynnydd yn ystod y misoedd i ddod.
- 11 O ganlyniad i'r hinsawdd ariannol, mae bron bob gwasanaeth cyhoeddus yn wynebu cwtogi ar gyllid. Cyllid refeniw yw'r arian y mae cynghorau yn ei wario ar gynnal a rheoli eu gwasanaethau. Bydd Cyngor Dinas Casnewydd yn gweld gostyngiad o tua £3.4 miliwn (1.7 y cant) yn y cyllid refeniw y mae'n ei dderbyn gan Lywodraeth y Cynulliad ar gyfer 2011-12. Ar ôl cynnwys chwyddiant, mae hynny'n golygu toriad mewn termau real o tua £7 miliwn (3.6 y cant). Mae ffigurau dangosol Llywodraeth y Cynulliad yn dangos gostyngiadau pellach mewn termau real yng nghyllid refeniw'r Cyngor ar gyfer 2012-13 a 2013-14.
- 12 Pennodd y Cyngor gyllideb refeniw o £233,448,000 yn 2009-10. Yn 2010-11, roedd y gyllideb yn £237,560,000. Yn ddiweddar, cadarnhaodd yr archwilydd a benodwyd gan yr Archwilydd Cyffredinol fod datganiadau ariannol y Cyngor yn gyffredinol foddhaol a bod yr arian wedi'i wario'n briodol.
- 13 Mae'r Cyngor yn parhau i ddatblygu a mireinio ei ddulliau o gynllunio'n ariannol ar gyfer y tymor canolig a'i fodd o wneud y defnydd gorau o'r arian sydd ganddo. Dros yr haf ac ar ddechrau'r hydref, bu'r Cyngor yn gwneud rhagor o waith i asesu ei ofynion tebygol o ran adnoddau refeniw yn y dyfodol. Rhagwelir y bydd y gofynion cyllidebol yn tyfu i £243,382,000 y flwyddyn nesaf ac yn disgyn ychydig i £236,028,000 y flwyddyn ganlynol.
- 14 Ar yr un pryd, rhagwelodd y Cyngor yn yr haf y byddai ei ffrydiau incwm yn lleihau yn y dyfodol. Mae'n rhagweld diffyg o £11.8 miliwn yn 2011-12 a £9 miliwn erbyn 2013-14. Caiff hyn ei ddadansoddi yn **Arddangosyn 1** ar sail y sefyllfa waethaf bosibl.

Arddangosyn 1: Cyllideb gwariant ac incwm a ragwelir ar gyfer 2010-11 - 2013-14

Mae'r bwloch rhwng yr hyn y mae'r Cyngor yn ei ragweld fydd angen ei wario a lefel yr adnoddau a fydd ar gael iddo yn tyfu yn y dyfodol oni roir camau ar waith i leihau gwariant.



Ffynhonnell: Cyngor Dinas Casnewydd, cyflwyniad Cynllun Ariannol Tymor Canolig i'r Cabinet 2011-2015, Gorffennaf 2010

- 15 Cafodd cyllideb y Cyngor ei rheoli'n dda dros y blynyddoedd diwethaf gyda chyllidebau wedi'u mantoli ar lefel cyfarwyddiaethau ac yn gorfforaethol. Mae hyn yn rhoi'r Cyngor ar sail gadarn ar gychwyn cyfnod o newid sylweddol a thoriadau ariannol gan ei fod wedi arfer sicrhau bod ei wasanaethau'n cael eu darparu gyda'r adnoddau sydd ar gael. Fodd bynnag, mae'r Cyngor yn wynebu heriau go iawn os yw'n mynd i gyflawni'r lefel o arbedion a ragwelir ganddo.
- 16 Mae canlyniadau Adolygiad Cynhwysfawr o Wariant Llywodraeth y DU yn hysbys, felly hefyd benderfyniadau Llywodraeth y Cynulliad o ran blaenoriaethau cyllid lleol yng Nghymru. Mae'r canlyniadau hyn yn dangos fod y Cyngor mewn sefyllfa well nag a ragwelwyd yn yr haf. Er hynny, parheir i ragweld diffyg yng nghyllideb y Cyngor ac mae wedi dechrau gweithio ar ystod o opsiynau i sicrhau arbedion.

17 I raddau helaeth mae'r cynigion yn ymwneud â:

- chyflwyno ffyrdd newydd o ddarparu gwasanaethau presennol er mwyn gwneud arbedion a gwelliannau - hynny yw, mesurau effeithlonrwydd pellach; a
- thrawsnewid y busnes - adolygu parhad y ddarpariaeth o wasanaethau anstatudol a'r lefel gwasanaeth a gyflenwir gan wasanaethau statudol, gan gynnwys sut y caiff gwasanaethau eu darparu.

18 Mae'r Cyngor yn rhagweld y bydd ei gynigion, sydd wrthi'n cael eu datblygu'n llawn, yn arwain at ddigon o arbedion ar gostau i sicrhau cyllideb refeniw wedi'i mantoli bob blwyddyn.

19 Mae'r Cyngor hefyd wedi nodi angen am gyllid sylweddol ar gyfer gwella seilwaith, datblygu gwasanaethau newydd ac uwchraddio cyfleusterau sy'n bodoli'n barod. Cyllid cyfalaf yw'r arian y mae cynghorau'n ei wario ar seilwaith, fel adeiladau newydd a chyfarpar newydd. Mae'r cyllid cyfalaf sydd ar gael i'r Cyngor yn mynd i ostwng yn sylweddol. Oherwydd bod cynghorau'n cyflwyno ceisiadau am gyllid cyfalaf, nid oes modd gwybod i sicrwydd faint y bydd pob cyngor yn ei dderbyn. Bydd cyfanswm y cyfalaf sydd ar gael i gynghorau yn gostwng 14 y cant yn 2011-12 (toriad mewn termau real o 18.5 y cant). Nid oes unrhyw ffigurau swyddogol ar gael ar gyfer gwariant cyfalaf llywodraeth leol ar ôl 2011-12 ond mae'n debygol o gyd-fynd â gostyngiad cyffredinol yng ngwariant cyfalaf Llywodraeth y Cynulliad, a fydd yn cael ei dorri tua 34 y cant (tua 40 y cant mewn termau real) rhwng 2010-11 a 2013-14.

A yw Cyngor Dinas Casnewydd yn gwybod beth sydd angen iddo ei wneud i wella?

Pam y dylai cyngor osod amcanion clir?

- 20 Swyddogaeth llywodraeth leol yng Nghymru yw darparu arweinyddiaeth gymunedol a democrataidd, gan weithio gyda'r llywodraeth genedlaethol i helpu i ddarparu blaenoriaethau a rhaglenni cenedlaethol. Hefyd, mae angen i'r Cyngor ddatblygu ei flaenoriaethau lleol gan ystyried anghenion dinasyddion, dyletswyddau a swyddogaethau statudol sy'n ofynnol ganddo a gwneud hynny drwy ymgynghori â phartneriaid, cymunedau ac asiantaethau eraill.
- 21 O ystyried yr ystod eang o swyddogaethau a gyflawnir gan gyngor, ei ymrwymiad i ofynion cenedlaethol yn ogystal â gofynion lleol, a'r angen i sicrhau defnydd effeithiol o'i adnoddau, mae'n bwysig sicrhau eglurder ynglŷn â beth y mae cyngor yn bwriadu ei wneud a pham y mae'n ei wneud. Mae eglurder o'r fath yn cynnig fframwaith ar gyfer gwneud penderfyniadau ynglŷn â'r defnydd o adnoddau. Trwy sicrhau ei fod yn gallu nodi canlyniad ei weithgarwch, gall y Cyngor roi sicrwydd i Aelodau etholedig unigol, ei ddinasyddion ac eraill, ei fod yn defnyddio'i adnoddau yn y modd gorau posibl.
- 22 Mae Llywodraeth y Cynulliad yn ei gwneud hi'n ofynnol i bob cyngor gyhoeddi ei gynlluniau ar gyfer gwella'r hyn a wna a sut y mae'n ei wneud cyn gynted ag sy'n bosibl ar ôl 1 Ebrill bob blwyddyn. Rhaid iddynt hefyd gyhoeddi rhestr o flaenoriaethau y maent yn bwriadu eu gwella bob blwyddyn - eu hamcanion gwella.

Beth yw amcanion gwella'r Cyngor?

- 23 Dechreuodd y Cyngor ffurfio'i amcanion gwella, a'r fframwaith ar gyfer rheoli eu darpariaeth, ar ddechrau 2010. Yn Chwefror 2010, mabwysiadodd y Cabinet dri amcan gwella cyffredinol:
 - gwneud ein dinas yn lle gwell i fyw ynddo i bob un o'n dinasyddion;
 - gwneud yr hyn a wnawn yn dda; a
 - gweithio'n galed i ddarparu'r hyn y mae ein dinasyddion yn ei ddweud wrthym sydd ei angen arnynt.
- 24 Yn ystod y flwyddyn bu'r Cyngor yn datblygu rhagor ar ei fframwaith ar gyfer rheoli ei holl weithgareddau a chyflenwi ei flaenoriaethau. Mae'r fframwaith yn cynnwys dwy elfen, 'addas ar gyfer y dyfodol' a 'teimlo'n dda am Gasnewydd'. Mae elfen 'addas ar gyfer y dyfodol' y fframwaith yn canolbwyntio ar wella trefniadau a phrosesau gweithredu yng nghyd-destun darparu gwasanaethau sy'n ateb anghenion y cwsmer. Mae elfen 'teimlo'n dda am Gasnewydd' y fframwaith yn nodi'r canlyniadau allweddol y mae'r Cyngor yn dymuno eu cyflawni ar gyfer y ddinas a'i dinasyddion.
- 25 Ym mis Gorffennaf 2010, nodwyd canlyniadau blaenoriaeth penodol a oedd yn nodi prosiectau a gweithgareddau allweddol a'r strategaethau a'r cynlluniau i'w cefnogi. Cyhoeddodd y Cyngor y canlyniadau blaenoriaeth hyn yn ei Gynllun Gwella 2010-11 yn Hydref 2010. Mae'r Cynllun yn elfen allweddol o'r fframwaith cynllunio corfforaethol ac adroddir ar gynnydd yn ôl prosiectau allweddol a gweithgarwch penodol bob chwarter. O edrych ymlaen, er mwyn bodloni gofynion y Cynulliad dylai'r Cyngor ddefnyddio'r adroddiadau cynnydd hyn fel sail ar gyfer nodi'r gwelliannau y mae'n

bwriadu eu cyflawni yn ystod 2011-12 yn fuan wedi Ebrill 2011. Mae **Arddangosyn 2** yn crynhoi'r wybodaeth yn y Cynllun Gwella a gyhoeddwyd gan y Cyngor yn Hydref 2010. Mae'n pennu'r canlyniadau blaenoriaeth a fabwysiadwyd gan y Cyngor ac yn disgrifio'r hyn fydd yn brawf o'u llwyddiant os cânt eu cyflawni.

Arddangosyn 2: Canlyniadau blaenoriaeth y Cyngor

Teimlo'n dda am Gasnewydd	Prawf o lwyddiant
Canol Dinas Bywiog	Mae Casnewydd yn ddinas unigryw a bywiog
Mwy o Fusnesau, Mwy o Swyddi	Mae gan Gasnewydd economi lewyrchus a ffyniannus Mae mwy o bobl yng Nghasnewydd yn cyfranogi yn yr economi leol
Addysg Ardderchog i Bawb	Mae plant a phobl ifanc yn llwyddo yn yr ysgol neu yn y gwaith Mae oedolion yng Nghasnewydd yn llwyddiannus ac yn gwireddu eu potensial
Dinas Ddiogel ac Iach	Mae pobl yng Nghasnewydd yn iach ac yn ffyniannus Mae pobl yng Nghasnewydd yn byw mewn cymuned ddiogel a chynhwysol
Delwedd Gadarnhaol	Mae Casnewydd yn ddinas unigryw a bywiog
Cysylltiadau Trafnidiaeth Da	Mae gan Gasnewydd economi lewyrchus a ffyniannus

Addas ar gyfer y dyfodol	Prawf o lwyddiant
Cwsmeriaid	Mae dinasyddion Casnewydd yn fodlon â gwasanaethau'r Cyngor Mae'r gwasanaethau'n gydgyssylltiedig ac wedi'u llunio yn ôl anghenion y cwsmer
Perfformiad	Mae'r Cyngor yn darparu cyllideb wedi'i mantoli Mae gwasanaethau'r Cyngor yn effeithlon ac yn cynnig gwerth am arian
Chi	Mae gweithwyr Cyngor Dinas Casnewydd yn cyrraedd eu potensial llawn

Source: Newport City Council Improvement Plan 2010-11

A yw'r Cyngor wedi pennu amcanion gwella priodol?

- 26 Mae Llywodraeth y Cynulliad yn disgwyl i gynghorau bennu eu blaenoriaethau eu hunain ar gyfer gwella yn seiliedig ar ddealltwriaeth drylwyr o'r cymunedau a wasanaethant. Mae hefyd yn disgwyl i'r amcanion gwella fod yn berthnasol i un neu fwy o agweddau penodol, fel gwneud yn siŵr fod gwasanaethau ar gael neu wella eu hansawdd neu eu heffeithlonrwydd. Cafodd amrywiaeth eang o ganlyniadau blaenoriaeth eu mabwysiadu gan y Cyngor, ac maent yn cydnabod yr angen i wella trefniadau mewnol yn ogystal â sicrhau canlyniadau cadarnhaol i ddinasyddion. Yn hyn o beth, ystyriwn eu bod yn briodol gan eu bod yn cwmpasu'r meysydd y mae Llywodraeth y Cynulliad yn disgwyl iddynt ymdrin â hwy.
- 27 Buom yn edrych ar ba mor dda oedd y Cyngor am gynnwys pobl leol a phobl sy'n gweithio gyda'r Cyngor ac iddo wrth benderfynu beth ddylid ei wneud yn flaenoriaeth. Mae'r Cyngor yn ymgynghori'n dda â phobl leol mewn llawer o ffyrdd gwahanol ac mae'n dechrau gweithio gyda sefydliadau eraill er mwyn sicrhau dull cydgysylltiedig o ymgynghori. Gallwn nodi fod amcanion gwella cyffredinol y Cyngor yn cwmpasu'r rhan fwyaf o'r materion sy'n bwysig i bobl. Mae Llywodraeth y Cynulliad hefyd yn disgwyl i gynghorau egluro sut y gall cymunedau a rhanddeiliaid argymhell amcanion gwella newydd yn ystod y flwyddyn. Nid yw dogfennau cyhoeddus y Cyngor yn gwneud hyn bob amser, ond mae'n gwella ei drefniadau ymgynghori ar gyfer y prif raglenni.

- 28 Yn ystod haf 2010, siaradodd y Cyngor â'i staff ynglŷn â'i gynlluniau ar gyfer y dyfodol i sicrhau fod pawb yn deall diben a blaenoriaethau'r Cyngor a bod digon o gyfle iddynt gyfrannu syniadau ar gyfer gwella.

A oes gan y Cyngor gynlluniau realistig ar gyfer darparu ei ganlyniadau blaenoriaeth?

- 29 Er bod cysylltiad canfyddadwy rhwng gweithgaredd gwasanaeth a'i ddarpariaeth gan y Cyngor yn achos rhai canlyniadau blaenoriaeth, fel 'addysg ardderchog i bawb', nid yw'r Cyngor eto wedi cysylltu gweithrediad ei gynlluniau darparu gwasanaeth yn llwyr â'i ganlyniadau blaenoriaeth. Mae hefyd wedi bod yn aros am ei setliad ariannol felly bydd angen iddo nawr adolygu'r gweithgaredd arfaethedig ymhellach yng nghyd-destun y setliad. Yn y gorffennol, bu'r Cyngor yn cysylltu gweithgaredd gwasanaeth â'r cyllid oedd ar gael; mae'r broses hon ar y gweill ar hyn o bryd law yn llaw â datblygu cynlluniau gwasanaeth a'u cysylltu â'r canlyniadau blaenoriaeth.

A fydd y Cyngor yn gallu dangos ei fod wedi cyflawni ei ganlyniadau blaenoriaeth?

- 30 Wrth bennu amcanion gwella, mae'n rhaid i'r Cyngor fod yn glir ynglŷn â'r hyn y mae'n ceisio ei gyflawni, ac mae'n rhaid i ddinasyddion lleol wybod pa wahaniaeth y bydd cyflawni'r amcanion hyn yn ei wneud i'w bywydau. I wneud hyn, mae'n rhaid i'r Cyngor fod â dulliau o fesur ac arddangos canlyniadau fel bod pawb yn deall pa un a yw cyflawni'r amcanion gwella wedi gwneud gwahaniaeth ai peidio.


- 31 Mae'r Cyngor wrthi'n sefydlu'r modd y mae'n gwerthuso cyflawniad ei ganlyniadau blaenoriaeth. Mae ei Gynllun Gwella 2010-11 yn pennu'r mesurau y bydd yn eu defnyddio ar gyfer pob un o'i ganlyniadau blaenoriaeth a'r wybodaeth sylfaenol fydd ar gael er mwyn gwerthuso cynnydd. Mae rhai o'r mesurau hyn yn ymwneud â gweithredoedd nad oes gan y Cyngor reolaeth uniongyrchol drostynt. Mae eraill yn dibynnu'n helaeth ar gydgyssylltu gweithgaredd rhwng y Cyngor a'i bartneriaid allweddol, fel cynyddu'r nifer sy'n mynd i ganol y ddinas bob blwyddyn, a bydd yn galw am eglurder ymhlith y partneriaid ynghylch cyfraniad pob un ohonynt tuag at ei gyflawni. Defnyddiodd y Cyngor un mesur i werthuso cyflawniad pob un o'i weithgareddau gwella. Mae hyn yn briodol ar gyfer rhai gweithgareddau gwella fel lleihau'r nifer o blant mewn gofal, ond ar gyfer rhai gwelliannau eraill, fel cefnogi rhagor o bobl hŷn i fyw bywyd annibynnol, gellid mesur llwyddiant yn well trwy ddefnyddio amrywiaeth o ddulliau. Fodd bynnag, mae'r mesurau a ddefnyddiwyd yn berthnasol ar gyfer dangos a gyflawnwyd y canlyniadau blaenoriaeth ac mae gan y Cyngor fframwaith hirsefydledig ar gyfer olrhain ac adrodd ar gynnydd trwy gyfrwng y Cabinet, y Bwrdd Perfformiad ac adolygon gwasanaeth.
- 32 Yn ystod 2010, penderfynodd y Cyngor newid ei ddull o gynllunio gwasanaethau, a bu'n gweithio ar weithredu methodoleg Atebolrwydd yn Seiliedig ar Ganlyniadau (RBA) er mwyn paratoi'r Cynllun Cyflenwi a Gwella Corfforaethol. Cynhaliwyd cyfres o weithdai yn ystod y flwyddyn i egluro'r dull gweithredu ac i gefnogi swyddogion i ddatblygu eu cynlluniau gwasanaeth. Yn seiliedig ar egwyddorion RBA, datblygodd y Cyngor ganllawiau cynllunio gwasanaethau newydd sy'n cychwyn gyda diffiniad o'r hyn fydd yn brawf o lwyddiant, ac sy'n datblygu cynlluniau gweithredu a fydd yn helpu'r maes gwasanaeth, a'r Cyngor, i symud tuag at hyn.
- 33 Nid oes terfynau amser wedi'u gosod ar gyfer y canlyniadau blaenoriaeth a'r 'profion o lwyddiant', felly mae'n aneglur pryd y bwriedir iddynt gael eu cyflawni. Er y gallai fod yn anodd i'r Cyngor nodi dyddiadau penodol, gallai cyflwyno cerrig milltir allweddol hwyluso'r gwaith o olrhain cynnydd. Ym mis Gorffennaf 2010, mapiodd y Cyngor weithgareddau 'addas ar gyfer y dyfodol' allweddol hyd at fis Mai 2011 ar linell amser, sy'n cynnwys digwyddiadau corfforaethol allweddol a dyddiadau cychwyn prosiectau, ond heb gynnwys unrhyw gerrig milltir interim. Mae adroddiadau diweddarau chwarterol i'r Cabinet yn adolygu'r prif weithgareddau sy'n gysylltiedig â chyflawni canlyniadau blaenoriaeth a'r hyn y mae'r Cyngor yn bwriadu ei ddarparu yn y chwarter nesaf. Mae'r Cyngor yn bwriadu mireinio cynlluniau gwasanaeth 2011-12 fel eu bod yn dangos yn well pa ganlyniadau sy'n cael eu darparu fel bod modd eu hadolygu fel rhan o'r trefniadau rheoli perfformiad sefydledig.
- 34 Gyda'i gilydd, dylai'r camau hyn alluogi'r Cyngor i nodi'r hyn sy'n cael ei gyflawni yn y tymor hwy, a dylai datblygiad arfaethedig ei drefniadau ehangach ar gyfer rheoli perfformiad ei alluogi i nodi cyfraniad gweithgareddau gwasanaethau penodol yn y tymor byrrach.
- 35 Mae gwybodaeth dda yn hanfodol i bob cyngor, ynghyd â'r gallu i'w defnyddio'n effeithiol er mwyn darparu gwasanaethau da a'u gwella ymhellach. Bydd archwilwyr yn profi sampl a ddetholir o blith 38 o ddangosyddion perfformiad cenedlaethol. O'r prawf hwn, gwelsom fod y Cyngor wedi rhoi systemau digonol ar waith i gynhyrchu dangosyddion perfformiad cenedlaethol.

A yw Cyngor Dinas Casnewydd yn gwasanaethu pobl yn dda?

- 36 Rydym yn gobeithio defnyddio Asesiad Gwella'r Archwilydd Cyffredinol i greu darlun graddol o ba mor dda y mae'r Cyngor yn gwasanaethu pobl leol. Er mwyn gwneud hynny, bob blwyddyn byddwn yn archwilio gwasanaethau'r Cyngor a rhai o'i amcanion ar gyfer gwella mewn perthynas â thair agwedd bwysig ar fywyd yng Nghasnewydd. Credwn fod yr agweddau hyn, gyda'i gilydd, yn cwmpasu y rhan fwyaf o'r prif wasanaethau y mae cynghorau yn eu darparu i'w dinasyddion. Dyma'r agweddau:
- helpu i gefnogi pobl mewn angen;
 - helpu pobl i ddatblygu; a
 - helpu i greu lle diogel, ffyniannus a dymunol i fyw ynddo.
- 37 Yn Asesiad Gwella eleni rydym wedi edrych ar sut mae'r Cyngor yn llwyddo hyd yn hyn ar un o'r amcanion ym mhob un o'r meysydd hyn. Mae **Arddangosyn 3** yn crynhoi'r meysydd a ystyriwyd gennym.
- 38 Dewiswyd yr amcanion hyn oherwydd eu bod, gyda'i gilydd, yn cwmpasu sawl maes allweddol o gyfrifoldebau'r Cyngor. Yn gyffredinol, os yw'r Cyngor wedi dewis blaenoriaethu agweddau penodol, dylai allu mesur eu heffaith ar bobl leol.
- 39 Byddwn yn ystyried amcanion gwella eraill y mae'r Cyngor yn eu gosod iddo'i hun yn ein hadroddiad y flwyddyn nesaf.
- 40 Yng Nghymru hefyd, mae angen gwasanaethu dinasyddion a darparu gwasanaethau trwy gyfrwng y Gymraeg, fel sy'n briodol i anghenion y gymuned. Yn 2009, roedd 18 y cant o boblogaeth Casnewydd yn gallu siarad Cymraeg o'i gymharu â thua 26 y cant o gyfanswm poblogaeth Cymru ac mae'r nifer o ddisgyblion a asesir yn y Gymraeg fel iaith gyntaf yn is na'r cyfartaledd yng Nghymru.

Arddangosyn 3: Gweithgareddau a adolygwyd

Amcan gwella	Canlyniad a fwriedir	Gwaith a archwiliwyd
Addysg Ardderchog i Bawb	Mae plant a phobl ifanc yn llwyddo yn yr ysgol neu yn y gwaith. Mae oedolion yng Nghasnewydd yn llwyddiannus ac yn gwireddu eu potensial	Gwella cyfleoedd addysgol i blant 16 oed
Dinas Ddiogel ac Iach	Mae pobl yng Nghasnewydd yn iach ac yn ffyniannus Mae pobl yng Nghasnewydd yn byw mewn cymuned ddiogel a chynhwysol	Cefnogi byw'n annibynnol i bobl mewn angen trwy leihau'r amser a gymer i brosesu grantiau cyfleusterau i'r anabl
Cysylltiadau Trafnidiaeth Da	Mae gan Gasnewydd economi lewyrchus a ffyniannus	Atal cyflwr ffyrdd, palmentydd a goleuadau stryd Casnewydd rhag gwaethygu

- 
- 41 Mae Bwrdd yr Iaith Gymraeg yn gweithio gydag awdurdodau lleol i'w helpu i ddatblygu eu cynlluniau iaith Gymraeg statudol sy'n amlinellu sut maent yn darparu gwasanaethau i'r cyhoedd trwy gyfrwng y Gymraeg. Yr awdurdodau sy'n darparu'r gwasanaethau sy'n bennaf gyfrifol am eu hystod a'u safon, ac maent yn gweithio yn unol â fframwaith a chanllawiau statudol Bwrdd yr Iaith. Disgwylir i bob awdurdod lleol gyflwyno Adroddiad Monitro Blynyddol i Fwrdd yr Iaith sy'n egluro sut mae'r cynllun wedi cael ei weithredu. Mae hyn yn galluogi Bwrdd yr Iaith i gynnig cyngor ar sut gall y Cyngor wella ei drefniadau lleol. Mae Bwrdd yr Iaith hefyd yn cynnal ei adolygiadau ei hun er mwyn asesu darpariaeth gwasanaethau Cymraeg a hyrwyddo gwelliant.
- 42 Roedd y Cyngor yn hwyr yn cyflwyno ei Adroddiad Monitro Blynyddol ar berfformiad a oedd wedi'i ddisgwyl yn ystod yr haf. Mae Bwrdd yr Iaith wedi barnu fod dogfennau etholiadol a statudol a hysbysebion recriwtio'r Cyngor yn cydymffurfio â'r Cynllun Iaith Gymraeg. Roedd materion yn codi mewn perthynas â gwefan y Cyngor ac mae'r Bwrdd wedi gofyn i'r Cyngor fynd i'r afael â nhw fel mater o flaenoriaeth. Hefyd, mae Bwrdd yr Iaith a'r Cyngor wedi cytuno i flaenoriaethu'r materion canlynol dros y misoedd nesaf: y ganolfan wyneb yn wyneb, asesu effaith, canllawiau mewnol ac ymwybyddiaeth o iaith. Mae'r Cyngor wedi cytuno i ddarparu cynllun gweithredu i gefnogi datblygiad y gwasanaethau hyn yn y dyfodol ar gyfer y Bwrdd erbyn 31 Ionawr 2011.

A yw Cyngor Dinas Casnewydd yn cefnogi pobl mewn angen?

- 43 Mae gan Gasnewydd boblogaeth sy'n heneiddio, disgwyliad oes sy'n cynyddu a thwf cymedrol ym maint y boblogaeth, a rhagwelir bod hyn yn mynd i barhau i'r dyfodol. Mae'r ffigurau diweddaraf yn dangos bod poblogaeth Casnewydd yn cynnwys mwy na'r cyfartaledd o oedolion sy'n byw gyda salwch cyfyngus hirdymor, problem iechyd neu anabledd sy'n cyfyngu ar eu gweithgareddau neu eu gwaith o ddydd i ddydd. Roedd y ganran amcangyfrifedig o bobl a atgyfeiriwyd i gael cymorth i oresgyn problemau camddefnyddio alcohol yn 2008-09 hefyd yn uwch na'r cyfartaledd ledled Cymru. Bydd y ffactorau hyn yn rhoi pwysau cynyddol ar wasanaethau cyhoeddus i ddarparu'r gefnogaeth angenrheidiol.
- 44 Swyddogaeth Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (CSSIW) yw cynnal asesiadau a gwneud penderfyniadau proffesiynol ynglŷn â gofal cymdeithasol, blynyddoedd cynnar a gwasanaethau cymdeithasol, gan hyrwyddo gwelliant ymysg y darparwyr gwasanaethau. Mae'n gweithio ar ran Gweinidogion Cymru, ond mae nifer o fesurau diogelu ar waith i sicrhau ei hannibyniaeth. O dan ddeddfwriaeth newydd mae fframwaith newydd yn ei le ar gyfer arolygu, gwerthuso ac adolygu gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol.
- 45 Mae'n ofynnol i gyfarwyddwyr gwasanaethau cymdeithasol gynhyrchu adroddiad hunanasesu blynyddol ar ba mor dda y caiff y gwasanaethau eu cyflenwi. Yna bydd CSSIW yn adolygu a dadansoddi'r dystiolaeth sy'n sail i'r adroddiad, gan gynnwys tystiolaeth gan reoleiddwyr ac arolygwyr eraill. Defnyddir y dadansoddiad hwn i lunio cynllun arolygu ac adolygu unigol ar gyfer pob cyngor. Bydd dadansoddiad CSSIW, a'r cynllun arolygu ac adolygu, yn cael eu cyhoeddi mewn llythyr blynyddol.
- 46 2009-10 yw blwyddyn lawn gyntaf y fframwaith newydd a'r diben yw sefydlu llinell sylfaen o berfformiad cyfredol. Ceir crynodeb o negeseuon allweddol y llythyr a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2010 isod.
- 47 Mae systemau ar waith i bobl gael cymorth gan y gwasanaethau cymdeithasol, er bod cydnabyddiaeth y gellid gwneud mwy. Mae'r Cyngor, fel rhan o'r gwaith o wella effeithiolrwydd ei wybodaeth, cyfeirio at wasanaethau eraill a threfniadau mynediad, yn mynd i gyflwyno canolfan gyswllt 'Wyneb yn Wyneb' er mwyn gwella mynediad i ddefnyddwyr cyfredol neu ddarpar ddefnyddwyr gwasanaethau. Hefyd, mae angen i'r Cyngor gasglu a defnyddio'n fwy effeithiol wybodaeth am effaith y gwaith o gyflenwi ei wasanaethau.
- 48 Gwnaed ymdrech sylweddol yn y gwasanaethau plant i wneud y gwasanaethau'n fwy cyson a gwella canlyniadau i blant. Er bod gwelliannau wedi'u gwneud, mae rhai o'r newidiadau'n cael eu gweithredu o hyd. Yn ystod 2009-10 cafodd llwythi achosion trwm ac anawsterau recriwtio staff i swyddi gwag o fewn y gwasanaethau plant effaith ar y perfformiad cyffredinol, er bod yr arolwg cenedlaethol ar Ddiogelu Plant a Byrddau Lleol Diogelu Plant wedi nodi fod trefniadau boddhaol ar waith. Ceir ystod o wasanaethau sydd wedi'u sefydlu'n dda ar draws y gwasanaethau plant, a pheth arloesedd a phartneriaethau da gyda'r trydydd sector. Mae'r Gwasanaeth Troseddau leuenctid yn gweithio gyda'i bartneriaid i leihau nifer y bobl ifanc sy'n cyflawni troseddau ac i atal aildroseddu.
- 49 Ym mis Mawrth 2010, roedd y Cyngor yn gyfrifol am ofalu am 295 o blant. Roedd hyn yn uwch na'r cyfartaledd ledled Cymru o 235 o blant. Weithiau rhaid i blant sy'n derbyn gofal gan y Cyngor symud i lety gwahanol. Mae nifer y plant yng ngofal y

Cyngor sydd mewn tri lleoliad gwahanol neu fwy y flwyddyn yn uwch nag yn unman arall yng Nghymru; gall yr ansefydlogrwydd hwn effeithio ar ddysgu. Yn ystod 2009-10, bu 40 o'r 295 o blant mewn tri lleoliad neu fwy, bu 75 o'r plant mewn dau leoliad a 180 mewn un lleoliad. Yn ystod 2009-10, ni chwblhaodd y Cyngor bob un o'r adolygiadau sy'n rhaid eu cynnal ar blant sy'n derbyn gofal o fewn yr amser gofynnol ac erbyn diwedd trydydd adolygiad y flwyddyn nid oedd gan yr un o'r 295 o blant gofnod asesu a chynnydd cyflawn.

- 50 Mae achosion o oedi cyn trosglwyddo pobl hŷn o'r ysbyty wedi gostwng cryn dipyn i fod o dan bedwar y cant, gan wella ar berfformiad y llynedd. Ar yr un pryd, mae nifer y bobl 65 oed a hŷn sydd mewn gofal preswyl wedi gostwng, sy'n awgrymu bod pecynnau gofal sy'n cael eu darparu wrth iddynt adael yr ysbyty yn defnyddio gwasanaethau cymunedol. Er bod rhai gwasanaethau a dulliau gweithredu arloesol, er mwyn gwella canlyniadau i oedolion sy'n defnyddio gwasanaethau, mae'r gwasanaethau cymdeithasol yn cydnabod bod angen cyflawni gwelliannau a mwy o gysondeb yn y gwasanaethau craidd, yn enwedig asesu, rheoli gofal a threfniadau adolygu. Mae'r adran gwasanaethau cymdeithasol wedi rhoi tystiolaeth gadarn o'i ffocws ar gynhalwyr ac mae'r gwaith hwn yn parhau i fod yn flaenoriaeth er mwyn cydbwysu effaith gwaith gofalu. Cynigiwyd asesiad i bob cynhaliwr y mae'r gwasanaeth yn gwybod amdanynt, ac mae ystod o wasanaethau ar gael iddynt. Er bod staff yn gweithio'n galed i ymdopi â'r galw cynyddol, gwelodd yr arolwg Amddiffyn Oedolion cenedlaethol fod anghysondeb yn y ffordd y câi systemau eu defnyddio ar draws y gwahanol grwpiau gwasanaethau i oedolion. Mae'r Cyngor yn cydnabod bod angen datblygu gwasanaethau amddiffyn oedolion yn sylweddol er mwyn cyflawni canlyniadau da yn rheolaidd ar gyfer defnyddwyr y gwasanaethau.

- 51 Mae'r Cyngor wedi cydnabod bod cefnogi'r gweithlu'n fater allweddol a gwnaed ymdrechion i wella cyfraddau recriwtio a chadw staff trwy wella telerau ac amodau. Er hynny, bu'r cynnydd ar wella recriwtio yn araf. Rhoddwyd blaenoriaeth uchel i weithio mewn partneriaeth ac mae wedi cynnwys defnyddwyr gwasanaethau, eu teuluoedd a'r cyhoedd gan gydnabod eu cyfraniad gwerthfawr at lunio neu ail-lunio gwasanaethau. Mae cynlluniau ar waith i fynd i'r afael ag unrhyw feysydd lle mae gorwario'n digwydd a sicrhau gwell gwerth am arian ar draws y gwasanaethau cymdeithasol.

- 52 Arweiniodd Strategaeth Recriwtio a Chadw Staff 2010 at leihad yn nifer y swyddi gwag yn y Gwasanaethau Oedolion. Bellach, mae gallu'r Adran Amddiffyn Oedolion Agored i Niwed wedi cryfhau trwy recriwtio Prif Swyddog ac Uwch-ymarferydd ychwanegol ac mae'r ddau bellach yn eu swyddi. Crëwyd swydd rheolwr gwasanaeth integredig (Gwasanaethau Iechyd Meddwl) yn 2010, ac ar hyn o bryd, person ar secondiad o Fwrdd Iechyd Aneurin Bevan sydd yn y swydd. Mae gwaith wedi'i wneud ers hynny i integreiddio'r timau sydd eisoes wedi'u cyd-leoli.

A yw Cyngor Dinas Casnewydd yn cefnogi pobl i fyw'n annibynnol?

Pam y mae'r Cyngor yn meddwl fod hyn yn bwysig?

- 53 Pan ymgynghorodd y Cyngor â'r bobl leol yn ystod haf 2010, un o'u pryderon oedd y diffyg cymorth gyda byw'n annibynnol i bobl sydd angen help a chefnogaeth. Mae'r Cyngor yn rhan o bartneriaeth â chynghorau cyfagos, Prosiect Eiddilwch Gwent, sydd newydd dderbyn cyllid cenedlaethol gyda'r nod o wella cefnogaeth yn y gymuned, ymestyn annibyniaeth ynghyd â lleihau'r nifer sy'n mynd i'r ysbyty neu sy'n gorfod aros yno'n hir cyn cael eu

rhyddhau. Byddwn yn monitro'r prosiect wrth iddo ddatblygu er mwyn clustnodi arferion da ac asesu a yw'n cyflawni canlyniadau gwell ar gyfer defnyddwyr a chynhalwyr.

- 54 Ceir nifer o ffyrdd y gall y Cyngor a sefydliadau eraill gefnogi byw'n annibynnol. Yn y rhan hon o'r adroddiad, awn ati i archwilio'r trefniadau ar gyfer darparu grantiau cyfleusterau i'r anabl ond mae gweithgareddau eraill ar waith sydd â'r nod o gefnogi byw'n annibynnol, sef:
- Lleihau oedi cyn rhyddhau pobl adref o'r ysbyty. Mae ffigurau'n dangos bod llai o bobl 75 oed neu'n hŷn wedi wynebu oedi cyn mynd adref dros y ddwy flynedd ddiwethaf o ganlyniad i gydweithio gwell a chynnydd yn y ddarpariaeth o ofal ychwanegol.
 - Darparu grantiau cyfleusterau i'r anabl fel bod cyfleusterau mwy addas i anghenion person anabl yn y cartref.
 - Gwneud addasiadau bach i gartrefi fel bod modd rhyddhau pobl o'r ysbyty yn gynt, gan leihau'r galw ar feysydd gwasanaeth eraill. Mae'r Cyngor wedi cwtdogi'r amser a gymer i wneud addasiadau bach o 25 diwrnod yn 2008-09 i 20 diwrnod yn 2009-10.
- 55 Yn 2008, nododd y Cyngor ei fod angen cwtdogi'r amser a gymer i brosesu a darparu grantiau cyfleusterau i'r anabl oherwydd bod ei berfformiad yn wan o'i gymharu â rhannau eraill o Gymru. Darperir grant cyfleusterau i'r anabl gan y Cyngor i helpu tuag at gostau addasu cartref person i'w alluogi i barhau i fyw yno. Telir y grant os yw'r Cyngor yn ystyried bod angen gwneud newidiadau i ddiwallu anghenion y person, a bod y gwaith yn rhesymol ac yn ymarferol.

A oes gan y Cyngor gynlluniau realistig i wella cyfleoedd byw'n annibynnol trwy gyflymu'r broses o ddarparu grantiau cyfleusterau i'r anabl?

- 56 Nid oes gan y Cyngor strategaeth eglur yn ei lle ar gyfer gwella perfformiad grantiau cyfleusterau i'r anabl yn y dyfodol ac mewn gwirionedd mae'r targed a bennwyd ar gyfer cyflawni hyn sef 580 diwrnod ar gyfer 2010-11 yn parhau'r dirywiad mewn perfformiad gyda phobl yn gorfod aros yn hwy am grantiau er mwyn addasu eu cartrefi i ateb eu hanghenion.
- 57 Asesiad y Cyngor ei hun yw ei bod hi'n cymryd amser hir i asesu grantiau cyfleusterau i'r anabl oherwydd bod cydgysylltu gwael rhwng gwaith ei staff Gwasanaethau Cymdeithasol a gwaith ei dîm Tai. Ychydig o rannu gwybodaeth a fu rhwng y timau ynglŷn â faint o waith oedd i'w wneud. Mae'r oedi yn y gwaith o brosesu asesiadau o fewn y Gwasanaethau Cymdeithasol yn gysylltiedig â phroblem hirdymor y Cyngor gyda recriwtio a chadw gweithwyr cymdeithasol a therapyddion galwedigaethol. Mae'r swyddi gwag sy'n parhau ar gyfer staff â sgiliau proffesiynol wedi achosi ôl-groniad mawr o waith a bellach nid oes digon o gyllid gan y Cyngor i gyflawni'r holl waith addasu sy'n dal heb ei wneud o fewn y flwyddyn ariannol, ac mae'n cymryd mwy o amser i ddarparu grantiau.
- 58 Ym mis Mai 2010, er mwyn gwella perfformiad a chydgyssylltu gweithgareddau'n well, datblygodd y Cyngor adran byw'n annibynnol a secondiwyd Therapydd Galwedigaethol i weithio yn y tîm gyda'r staff grantiau er mwyn canolbwyntio ar yr hyn sydd ei angen ar bobl i fyw'r bywyd a dymunant. Rhannol lwyddiannus fu hyn ac ar adegau o brinder staff o fewn y Gwasanaethau Cymdeithasol, nid oedd y Therapydd Galwedigaethol ar gael i asesu gofynion addasu tai.

A fydd y Cyngor yn gallu dangos ei fod wedi gwella'r trefniadau ar gyfer darparu grantiau cyfleusterau i'r anabl?

- 59 Un o'r ffyrdd o fesur perfformiad cyngor o ran darparu'r grantiau hyn yw'r amser a gymer i dderbyn grant. O'i gymharu â rhannau eraill o Gymru, rhaid i bobl sy'n byw yng Nghasnewydd aros am amser maith cyn derbyn grant cyfleusterau i'r anabl. Yn 2008-09, cymerodd 364 diwrnod ar gyfartaledd i'r Cyngor ddarparu'r grant a gosododd darged o 320 diwrnod ar gyfer gwella. Fodd bynnag, yn 2009-10, cymerodd 464 diwrnod ar gyfartaledd i'r Cyngor ddarparu'r grant sydd gryn dipyn yn waeth na'r flwyddyn flaenorol ac roedd 17 o'r 22 cyngor yng Nghymru yn perfformio'n well. Y cyfartaledd ledled Cymru yn 2010-11 oedd 349 diwrnod gyda'r cyngor a berfformiodd orau yn darparu grantiau mewn 189 diwrnod ar gyfartaledd.
- 60 Un o'r canlyniadau y mae'r Cyngor wedi'u cynnwys o dan yr amcan gwella 'Dinas ddiogel ac iach' yw 'helpu a chefnogi mwy o bobl i fyw'n annibynnol'. Nid oes cysondeb rhwng gosod targed sy'n gwaethygu perfformiad a'r amcan o helpu pobl i fyw'n annibynnol. Nid yw'r Cyngor wedi cynnwys mesur o'r amser mae'n ei gymryd i ddarparu grantiau cyfleusterau i'r anabl fel modd o werthuso ei lwyddiant yn 'helpu a chefnogi pobl hŷn i fyw'n annibynnol', gweithgaredd gan y Cyngor sy'n cysylltu â helpu rhagor o bobl i aros yn eu cartrefi eu hunain. Byddwn yn adolygu dull y Cyngor o gefnogi byw'n annibynnol yn fwy manwl ac yn cynnwys ein canfyddiadau yn ein hadroddiad y flwyddyn nesaf.

A yw Cyngor Dinas Casnewydd yn helpu pobl i ddatblygu?

- 61 Estyn, Arolygiaeth Addysg a Hyfforddiant Ei Mawrhydi yng Nghymru, sy'n gyfrifol am arolygu ansawdd a safonau mewn addysg a hyfforddiant. Mae Estyn yn cynnal arolygon ar ysgolion unigol a darparwyr dysgu eraill. Mae gan Estyn arolygydd cyswllt ar gyfer pob awdurdod lleol, fel rhan o dîm rhanbarthol, sy'n dadansoddi gwybodaeth am berfformiad ac yn gwneud penderfyniadau ynglŷn â pha mor dda y mae cynghorau yn cefnogi darparwyr addysg yn eu hardal er mwyn helpu dysgwyr unigol i gyflawni.
- 62 Wrth edrych ar ganlyniadau cyfnodau allweddol ar gyfer disgyblion 7 oed, 11 oed a 14 oed, mae ysgolion Casnewydd yn gyson wedi perfformio'n well na'r cyfartaledd trwy Gymru ond mae canlyniadau disgyblion 16 oed wedi bod yn is na'r cyfartaledd yng Nghymru. Hefyd, ceir rhai disgyblion sy'n wynebu mwy o heriau nag eraill, fel pobl ifanc yng ngofal y Cyngor a chynhalwyr ifanc sy'n gofalu am aelodau eraill o'u teuluoedd. O'r herwydd, mae hyn yn un o flaenoriaethau'r Gwasanaethau Addysg ar gyfer y flwyddyn hon ac mae'n ffurfio rhan bwysig o Nod Craidd 2 cylch cynllunio'r tair blynedd nesaf ar gyfer Plant a Phobl Ifanc.
- 63 Hefyd, dengys ystadegau ar gyfer Cymru gyfan fod gan Gasnewydd gyfran uwch na'r cyfartaledd o oedolion o oedran gweithio sydd heb gymwysterau, a chyfran is na'r cyfartaledd o oedolion o oedran gweithio sy'n raddedigion. Ar yr un pryd, gan Gasnewydd y mae un o'r canrannau isaf yng Nghymru o ddisgyblion sy'n gadael yr ysgol heb gymwysterau. Mae gwybodaeth am berfformiad y Cyngor ar gyfer y flwyddyn academaidd 2009-10 yn dangos gwelliant pellach o gymharu â'r flwyddyn flaenorol.

A yw'r Cyngor yn gwella cyfleoedd addysgol i blant 16 oed?

Pam y mae'r Cyngor yn ystyried hyn yn bwysig?

- 64 Mae'r Cyngor wedi cydnabod bod gwybodaeth am y canlyniadau a gyflawnir gan ddisgyblion 16 oed yn dangos nad oedd lefelau perfformiad cystal o'u cymharu â grwpiau oedran iau. Hefyd, tynnodd sylw at y bylchau yn ei wybodaeth am bobl ifanc mwy agored i niwed, fel y bobl ifanc yn ei ofal, a phobl ifanc sy'n gofalu am eraill. Mewn ardal lle mae diweithdra'n gymharol uchel, mae'n amlwg yn bwysig i'r Cyngor flaenoriaethu gwella cyfleoedd addysgol i bobl ifanc, a dylai hynny, yn y tymor hwy, helpu i wella'r gyfran o oedolion o oedran gweithio sy'n meddu ar gymwysterau.
- 65 Yn 2009-10, o'r 35 o blant a adawodd ofal yr awdurdod, nid oedd cymwysterau gan 10 ohonynt, roedd gan 25 o leiaf un cymhwyster ac nid oedd gan yr un ohonynt bump TGAU rhwng graddau A* ac C. Mae ystadegau Cymru'n dangos bod 35 y cant o blant ar gyfartaledd yn gadael gofal heb gymhwyster o'i gymharu â 31 y cant yng Nghasnewydd.
- 66 Mae'r Cyngor yn cydnabod yr angen i wella'r gefnogaeth y mae'n ei rhoi i blant sy'n derbyn gofal ac i gynhalwyr ifanc ond nid yw wedi nodi'r rhain fel meysydd penodol ar gyfer gwella a monitro o dan yr amcan gwella 'Addysg ardderchog i bawb'.

A oes gan y Cyngor gynlluniau realistig i wella cyfleoedd addysgol i blant 16 oed?

- 67 Mae'r Cyngor wedi nodi amrywiaeth eang o ffactorau a all gyfyngu ar gyfleoedd addysgol ac mae wedi rhoi camau cadarnhaol ar waith i ddatblygu ystod eang o gyfleoedd gyda'r nod o fynd i'r afael ag anghenion penodol. Mae'r cynlluniau ar gyfer gwella yn seiliedig ar wneud y defnydd gorau o'r adnoddau sydd ar gael, a'u targedu at weithgareddau allweddol.
- 68 Nod y Cyngor yw defnyddio'r adnoddau sydd ar gael yn fwy effeithiol trwy hyrwyddo a hwyluso rhannu gwybodaeth a phrofiad rhwng ysgolion yr ardal. Creodd nifer o rwydweithiau i helpu gyda hyn. Ffurfiwyd grŵp 'Ein busnes ni gyd' o gynrychiolwyr ysgol, rheolwyr uwch a chanol i adolygu a monitro perfformiad a phrosesau a sefydlwyd gan y Bartneriaeth Plant a Phobl Ifanc yn rheolaidd. Mae'r Cyngor hefyd yn hyrwyddo dysgu proffesiynol trwy gynnal cynadleddau i bob ysgol yng Nghasnewydd ddwywaith y flwyddyn, gan ddarparu fforwm ar gyfer rhannu dysg, her a thrafodaeth ar faterion allweddol.
- 69 Arweiniodd y fenter hon at nodi rhai dulliau allweddol o wella cyfleoedd addysgol:
- Darparu ystod ehangach o opsiynau cymwysterau sy'n adlewyrchiad mwy cywir o anghenion, diddordebau a dyheadau disgybl. Cyflwynwyd ystod o opsiynau ar gyfer disgyblion 16 i 18 oed.
 - Gan gydnabod fod angen mwy o amser ar rai myfyrwyr i gyflawni cymwysterau ac addasu i sefyllfaoedd arholiad, mae'r amserlen arholiadau wedi'i theilwra bellach i weddu i anghenion yr unigolyn, gan helpu disgyblion i addasu i'r profiad o sefyll arholiadau.
- Gwella lefelau presenoldeb ysgolion a gostwng y nifer o waharddiadau.
 - Cau'r bylchau perfformiad addysgol rhwng yr ysgolion sy'n perfformio orau a'r ysgolion sy'n perfformio waethaf.
 - Ymgysylltu â sefydliadau a phobl ifanc eraill er mwyn nodi a mynd i'r afael â phroblemau posibl cyn iddynt ddigwydd, er enghraifft y Grŵp Gwasanaeth Ataliol, a gweithio gyda Gyrfa Cymru.
 - Nid ymwneud yn unig ag adeiladu ac uwchraddio adeiladau ysgol y mae'r prosiect 'Ysgolion newydd ar gyfer adeiladau newydd', ond â newid y ffordd y caiff ysgolion eu trefnu a disgyblion eu cefnogi yn y modd sy'n gweddu orau i anghenion yr ysgol unigol. Hefyd, darperir hyfforddiant a chymorth penodol i'r holl ddisgyblion gyda'r nod o wella eu hunan-barch a'u hunanhyder ac effeithio'n gadarnhaol ar ymddygiad ac agweddau.

Astudiaeth achos: Atal trwy gydweithio

Mae dau brosiect penodol yn dod â phobl ifanc, y Cyngor a sefydliadau allweddol eraill at ei gilydd i archwilio'r problemau sy'n wynebu pobl ifanc, a chyflwyno'r dulliau gorau o oresgyn y problemau hynny. Yr allwedd i'w llwyddiant fu llunio atebion sy'n berthnasol i'r bobl ifanc dan sylw, yn ogystal â chydgysylltu gweithgaredd a chydabod y cyfraniad y gall teuluoedd a sefydliadau eraill ei wneud.

Mae'r Grŵp Gwasanaeth Ataliol yn cynnwys Heddlu Gwent, Bwrdd Iechyd Lleol Aneurin Bevan, y Gwasanaeth Ieuencid, Gwasanaethau Cymdeithasol, a darparwyr tai, ac mae'n cynnig amrywiaeth o wasanaethau a chymorth i blant, pobl ifanc, a theuluoedd ar draws Casnewydd. Y nod yw ymyrryd yn fuan pan fo teuluoedd yn wynebu problemau er mwyn atal mater rhag tyfu'n argyfwng. Mae'r gwasanaeth yn bwynt cyswllt ar gyfer athrawon, teuluoedd ac asiantaethau eraill ac yn gweithio i ddarganfod y dull mwyaf addas o helpu teuluoedd yn fuan, gan leihau'r angen am gymorth nifer o asiantaethau yn nes ymlaen. Mae'r gwasanaeth yn cefnogi ac yn monitro 432 o deuluoedd yng Nghasnewydd ar hyn o bryd.

Mae partneriaeth arall gyda Gyrfa Cymru yn targedu pobl ifanc mewn perygl o adael ysgol heb ragolygon addysg bellach, hyfforddiant na gwaith er mwyn sicrhau, yn union cyn iddynt adael yr ysgol, bod disgyblion yn dod yn ymwybodol o'r gweithgareddau hyfforddi a datblygu sydd ar gael iddynt ac yn cael eu hannog i fanteisio arnynt.

- 70 O dan y prosiect 'Ysgolion newydd ar gyfer adeiladau newydd', mae hen Ysgol Gyfun Betws, a ailenydd yn Ysgol Uwchradd Casnewydd, eisoes yn gweld arwyddion o welliant. Yn 2010, am y tro cyntaf erioed, cafodd disgybl o'r ysgol ei dderbyn i Rydychen a chyflwynwyd mwy o geisiadau am le yn yr ysgol nag y gallai eu derbyn, ac mae'r adborth o'r gymuned yn dangos gwelliant sylweddol o ran ymddygiad a phresenoldeb yn yr ysgol.
- 71 Mae perfformiad yr ysgolion cynradd wedi bod yn gryf ers blynyddoedd lawer. Mae gan yr wyth ysgol gyfun broffiliau cymdeithasol/economaidd gwahanol, diwylliannau gwahanol, a gwahanol lefelau cyrhaeddiad, sy'n cynnig heriau gwahanol ac yn galw am ddulliau gwahanol o weithredu ar ran yr ysgolion. Mae camau ar waith i geisio cau'r bylchau mewn perfformiad addysgol rhwng y perfformwyr gorau a'r gwaethaf. Anogir ysgolion i glustnodi'r hyn y gellir ei ddydsu o fewn yr ysgol ynglŷn â beth sydd angen ei wella trwy barhau i herio'u hunain, gan edrych ar beth sy'n gweithio'n dda yn yr ystafell ddosbarth, y modd y mae'r dysgu gorau'n helpu plant i ddeall yn well ac i archwilio'r rhesymau pam y mae rhai plant yn cael anawsterau gyda deall. Caiff dadansoddiadau o'r fath eu rhannu wedyn gydag ysgolion eraill fel modd o hyrwyddo gwelliant mwy cyffredinol. Mae arwyddion fod canlyniadau'n gwella yng Nghyfnod Allweddol 4 yn yr ysgolion sydd wedi bod yn perfformio waethaf yn y gorffennol.

A fydd y Cyngor yn gallu dangos bod cyfleoedd addysgol i blant 16 oed wedi gwella?

- 72 Eisoes, mae gan y Cyngor rai dulliau o fesur, megis canlyniadau arholiadau a phrofion, a fydd yn ei helpu i ddeall pa un a yw cyfleoedd wedi gwella i rai 16 oed, er nad y rhain yw'r unig ddangosyddion o ran gwella sgiliau.
- 73 Gall sefyllfa 'plant sy'n derbyn gofal' a phlant sy'n gofalu am aelodau eraill o'u teuluoedd, 'cynhalwyr ifanc', effeithio'n niweidiol ar eu dysgu. Mae gan y Cyngor ddata ar y grwpiau agored i niwed penodol hyn ac mae gwella safonau ar eu cyfer yn flaenoriaeth i'r Gwasanaeth Addysg fel sydd i'w weld yn y Cynllun Gwasanaeth a'r Cynllun Plant a Phobl Ifanc 2011-14 drafft.
- 74 Un dull arall y bwriada'r Cyngor ei ddefnyddio i weld a yw'n darparu 'Addysg ardderchog i bawb' yw mesur niferoedd plant sy'n gadael yr ysgol heb barhau mewn addysg, a heb gyflogaeth na hyfforddiant (NEET). Yn amlwg, byddai ceisio gostwng y nifer hwn yn gwneud synnwyr ac mae ymdrech y Cyngor i wella cyfleoedd addysgol yn dechrau dangos. Mae'r Cyngor bellach wedi cynnwys mesurau penodol gogyfer â grwpiau o blant agored i niwed a bydd yn gallu asesu pa un a yw addysg yn gwella i'r plant hyn.

A yw Cyngor Dinas Casnewydd yn helpu i greu lle diogel, ffyniannus a dymunol i fyw ynddo?

75 I ateb gwahanol anghenion yr ardaloedd yng Nghasnewydd, mae'r Cyngor yn bwriadu cyflwyno dull o weithio ar sail ardal, ac mae'n credu y bydd hyn yn ei alluogi i gynllunio ac ymateb yn well i wahanol anghenion a blaenoriaethau ardaloedd yn y ddinas. Byddwn yn olrhain cynnydd y Cyngor gyda'r dull hwn yn y dyfodol.

A yw'r Cyngor yn helpu i greu lle diogel i fyw ynddo?

76 Dengys ystadegau'r Swyddfa Gartref ar gyfer 2008-09 fod cyfradd troseddau Casnewydd y drydedd uchaf yng Nghymru, er ei bod wedi disgyn dros y chwe blynedd diwethaf. Mae troseddau difrifol, a chamddefnyddio cyffuriau ac alcohol wedi cynyddu. Yn 2008-09, roedd y nifer amcangyfrifedig o bobl a atgyfeiriwyd am driniaeth alcohol yng Nghasnewydd yn sylweddol uwch na'r cyfartaledd yng Nghymru.

77 Gwnaeth Deddf Trosedd ac Anhrefn 1998 hi'n ddyletswydd statudol i ffurfio partneriaethau gostwng troseddau ac anhrefn lleol. Yng Nghasnewydd, enw'r bartneriaeth hon yw Casnewydd Ddiogelach, ac mae'n gyfrifol am gynnal asesiad blynyddol o drosedd ac anhrefn ar gyfer datblygu a gweithredu cynllun blynyddol. Mae Casnewydd Ddiogelach yn cynnwys cynrychiolwyr o'r Cyngor, Heddlu Gwent, y Bwrdd Iechyd Lleol, y Gwasanaeth Tân, Gwasanaeth Prawf Gwent a'r Tîm Troseddau Ieuencid. Mae'r bartneriaeth wedi clustnodi ymddygiad gwrthgymdeithasol a throseddau treisgar, fel troseddau rhywiol a lladrad, fel meysydd blaenoriaeth ar gyfer gwella gan ganolbwyntio ar ymosodiadau sy'n gysylltiedig ag alcohol a chanol y ddinas. Mae troseddau casineb a thrais domestig, a bwrgheriaeth o dai a cheir hefyd yn flaenoriaeth.

78 Cynhaliwyd gweithdai gan y bartneriaeth i ddarganfod barn pobl leol a'r prif faterion oedd yn peri pryder i'r bobl leol oedd troseddau, trais, ymddygiad gwrthgymdeithasol, a chamddefnyddio alcohol a sylweddau. Mae'r bartneriaeth wedi nodi fod lefelau anghymesur o droseddau'n digwydd mewn rhannau penodol o'r ddinas a sefydlodd grwpiau gorchwyl a gorffen arbennig i ddatblygu strategaethau lleol ar gyfer ymdrin â digwyddiadau lleol. Yn gyffredinol, mae'r bartneriaeth yn dweud fod lefelau troseddau wedi disgyn, ond mae'r ffigurau sydd gan rai o'r partneriaid yn amrywio, sydd wedi'i gwneud hi'n anodd bod yn bendant pa un a yw nifer yr achosion o ymddygiad gwrthgymdeithasol ar gynnydd neu'n gostwng er bod gwybodaeth gyfredol o gofnodion yr Heddlu a'r Cyngor yn awgrymu eu bod wedi gostwng. Mae'r bartneriaeth wedi cydnabod y cyfyngiadau sy'n codi o'r ffordd y caiff gwybodaeth ei choladu ar gyfer dangosyddion cenedlaethol ac mae'n gweithio i ddatblygu dangosyddion lleol. Mabwysiadwyd yr angen i nodi dulliau clir o fesur perfformiad ar draws yr holl asiantaethau fel tasg allweddol ar gyfer y flwyddyn hon.

79 Mae'r Cyngor yn gweithio'n agos â sefydliadau eraill, megis sefydliadau gwirfoddol, i ddeall materion sy'n achosi problemau mewn ardaloedd lleol ac i adeiladu cymunedau cryfach. Mae'r Cyngor yn gweithio'n agos â'r heddlu a gwasanaethau eraill i geisio darganfod pa mor ddiogel yw ei gymunedau, ac i'w gwneud yn ddiogelach. Er enghraifft, mae'r Grŵp Gwasanaeth Ataliol amlasiantaethol a ddisgrifiwyd uchod yn darparu gwasanaeth i'r teuluoedd â'r angen mwyaf ac yn ymateb i anghenion y teulu cyfan. Mae'r Cyngor a phenaethiaid ysgolion yn ystyried bod y gwasanaeth yn llwyddiant am fod gostyngiad yn nifer y troseddau ac achosion o ymddygiad gwrthgymdeithasol sy'n dod i sylw'r heddlu a'r

Cyngor. Ar hyn o bryd, mae'r cynllun yn dibynnu ar arian grant sy'n dod i ben ym mis Mawrth 2011. Er gwaethaf yr ansicrwydd hwn ynghylch cyllid allanol, mae gwaith ar y gweill i brif ffrydio'r rhaglen - mae hyn yn cynnwys datblygu cynlluniau amlasiantaethol a dull cydlynus o atal troseddu gyda'r Gwasanaethau Cymdeithasol, a pharhau i dderbyn cefnogaeth gadarnhaol gan y Fforwm Ysgolion a phenaethiaid ysgolion uwchradd a chynradd.

80 Ym mis Gorffennaf 2010, cynhaliodd Prif Arolygydd Prawf Ei Mawrhydi arolwg o'r Gwasanaeth Troseddau Ieuentid. Archwiliodd yr arolygwyr sampl cynrychiadol o achosion troseddau ieuentid o'r ardal, a barnu pa mor aml y cafodd agweddau Gwarchod y Cyhoedd a Diogelu ar y gwaith eu cyflawni i safon ddigon uchel.

81 Yn gyffredinol, ystyriwyd bod y canfyddiadau hyn yn cyfateb i'r cyfartaledd. Roedd yr asesiadau a'r adolygiadau cychwynnol yn galw am fwy o sylw, tra roedd angen i baneli rheoli risg fod yn fwy dadansoddol ynglŷn â Risg o niwed i eraill a materion yn ymwneud â bod yn agored i niwed mewn achosion perthnasol. Cafodd yr arolygwyr eu calonogi gan y ffordd gadarnhaol yr oedd rheolwyr achos yn myfyrio ar eu hymarfer ac yn ymateb i adborth yr arolwg.

Arddangosyn 4: Arolygiad o'r Gwasanaeth Troseddau Ieuentid

Roedd canfyddiadau'r arolygiad yn dangos perfformiad cyfartalog

Agwedd	Casnewydd	Cyfartaledd Cymru
Diogelu: pa mor aml y rhoddwyd pob cam rhesymol ar waith yn ddigon da i leihau cymaint â phosibl y risg o niwed i blentyn neu berson ifanc.	65% o'r amser	64%
Diogelu'r Cyhoedd: pa mor aml y gwnaed gwaith yn ddigon da i leihau cymaint â phosibl risg pob unigolyn o niweidio eraill.	59% o'r amser	60%
Diogelu'r Cyhoedd: pa mor aml y gwnaed gwaith yn ddigon da i wneud pob unigolyn yn llai tebygol o aildroseddu.	67% o'r amser	66%

Ffynhonnell: Arolygiad Achosion Craidd o waith troseddau ieuentid yn Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi Casnewydd © Hawlfraint y Goron

A yw'r Cyngor yn helpu i greu lle ffyniannus a dymunol i fyw ynddo?

82 Gall cynghorau helpu i greu lle ffyniannus a dymunol i fyw ynddo mewn nifer o wahanol ffyrdd. Gallant weithredu i helpu i wella'r amgylchedd ffisegol a chyfluoedd gwaith trwy, er enghraifft, ddefnyddio pwerau cynllunio neu gydgysylltu gweithgaredd ailddatblygu, a gallant hefyd ddarparu gwasanaethau penodol i ddinasyddion, er enghraifft casglu gwastraff, glanhau strydoedd neu ddarparu cyfleusterau hamdden. Yn yr adran hon, rydym yn rhoi trosolwg o amrywiaeth o weithgareddau ac yn canolbwyntio ar ddau faes gwasanaeth penodol, rheoli gwastraff a gwella ffyrdd a phalmentydd.

83 Mae'r Cyngor yn gweithio gyda phartner allweddol, Newport Unlimited, i adfywio'r ddinas, gyda'r nod o'i thro'i'n ganolfan ffyniannus ar gyfer busnes, hamdden a byw. Sefydlwyd Newport Unlimited yn 2003 fel Cwmni Adfywio Trefol, cwmni preifat a sefydlwyd gan Lywodraeth y Cynulliad a'r Cyngor. Ei nod yw helpu i wrthsefyll effeithiau dirywiad parhaus diwydiant trwm a gweithgynhyrchu yng Nghasnewydd.

84 Llywodraeth y Cynulliad a'r Cyngor sy'n darparu cyllid i Newport Unlimited. Mae'r Cyngor yn neilltuo £333,000 y flwyddyn i Newport Unlimited. Cytunir ar gynllun busnes blynyddol sy'n pennu amcanion, targedau, cyllideb weithredol a rhaglen ddatblygu arfaethedig ar gyfer y tair blynedd nesaf. Ei weledigaeth yw gweithio gyda'r sectorau cyhoeddus a phreifat i gyflawni newid ffisegol mawr a chryfhau economi Casnewydd. Trwy gyfrwng prosiectau adfywio, gellir gwella'r dirwedd, creu swyddi newydd, a denu buddsoddwyr. Pennwyd rhai amcanion penodol; hwyluso buddsoddi £2 biliwn, 11,000 o gartrefi newydd, 15,000 o swyddi newydd, miliwn o droedfeddi

sgwâr o safleoedd manwerthu newydd neu wedi'u hadnewyddu, a miliwn o droedfeddi sgwâr o ofod newydd ar gyfer swyddfeydd. Dyma rai o'r canlyniadau a gyflawnwyd gan y bartneriaeth:

- adfywio adeiladau sy'n bodoli'n barod a safleoedd tir llwyd i ddarparu siopau newydd a gwell trwy adnewyddu Canolfan Siopa Ffordd y Brenin a maes parcio yng nghanol y ddinas, archfarchnad newydd Asda yn y Pill, ac archfarchnad Sainsbury's newydd ar yr hen waith nwy yn y Crindau;
- mae gwaith a gwblhawyd ar amddiffynfeydd afon ar lan ddwyreiniol yr Afon Wysg yn diogelu 4,000 o gartrefi;
- gwell mynediad i ardaloedd gwyrdd trwy gyfrwng datblygiad llwybrau ar lan chwith a glan ddwyreiniol yr afon, a chreu Parc Glan yr Afon newydd gyda llwybrau cerdded a llwybrau beic, a chreu rhodfa o Ffordd Wysg, Ffordd y Brenin a Ffordd y Frenhines;
- gwella mynediad i ganol y ddinas trwy gyfrwng Pont Droed Dinas Casnewydd sy'n darparu cysylltiad ar draws yr afon, mesurau lleddfu traffig a thrwy ailddatblygu plattform 4 yn yr orsaf reilffordd;
- campws newydd canol y ddinas Prifysgol Casnewydd ar lan yr afon; a
- chodi 500 o fflatiau a thai newydd ar ochr ddwyreiniol yr afon ar safle Hen Ddoc y Dref.

85 Mae newidiadau mawr ar waith mewn sawl rhan o ddinas Casnewydd. Mae campws newydd y brifysgol ar lannau'r Afon Wysg, sydd newydd ei ddatblygu ar gost o £35 miliwn, yn ychwanegu at drawsnewidiad canol y ddinas. Mae ailddatblygu Hen Ddoc y Dref hefyd yn rhan allweddol o gynlluniau cyffredinol y Cyngor i adfywio'r ddinas, gan wneud defnydd unwaith eto o un o safleoedd tir llwyd mwyaf y ddinas.

- 86 Mae'r bobl leol yn teimlo fod adfywio canol y ddinas, gan drawsnewid neu gael gwared ar adeiladau gwag, darparu parcio fforddiadwy, a gwella glendid trwy gael gwared ar sbwriel a llanast oddi ar y palmentydd yn flaenoriaeth i'r Cyngor. Caiff glendid priffyrdd a thir perthnasol ei fesur yn ôl y ganran sy'n cyrraedd safon dderbyniol wrth eu harchwilio. Mae cyfradd glendid priffyrdd a thir perthnasol yng Nghasnewydd wedi amrywio ers 2005-06, ond yn y blynyddoedd diwethaf, mae cyfraddau glendid wedi disgyn. Casnewydd oedd â'r gyfradd uchaf ond un o blith awdurdodau lleol Cymru yn 2006-07, ond hi sydd â'r isaf ond un yn 2008-09 yn dilyn gostyngiad sydyn.
- 87 Ar hyn o bryd, caiff y gwasanaethau sy'n fwyaf gweladwy yn y gymuned ac sy'n cael eu crybwyll amlaf gan y cyhoedd, fel Priffyrdd, Tiroedd a Chefn Gwlad, Trafnidiaeth a Glanhau Strydoedd, eu darparu gan wahanol feysydd gwasanaeth. Mae'r Cyngor yn bwriadu cyflwyno newidiadau trwy greu timau amlddisgyblaethol ar sail ardal. Fodd bynnag, nid yw'r cynlluniau gwasanaeth ar gael eto, felly byddwn yn monitro effaith dull newydd y Cyngor o weithredu yn ein gwaith yn y dyfodol.
- 88 Ym mis Mehefin 2009, cwblhaodd Fforwm Trosolwg a Chraffu Tai a Gwasanaethau Cymunedol Casnewydd adolygiad pwysig i edrych ar dlodi tanwydd yn y ddinas. Mae'r Cyngor, gyda'i bartneriaid, wedi datblygu a gweithredu Cynllun Gweithredu Cynhesrwydd Fforddiadwy. Mae cynlluniau gwella'r Cyngor yn datgan ei fod yn bwriadu lleihau'r nifer o bobl sy'n byw mewn tlodi tanwydd yn y ddinas ond gwelsom nad yw'r wybodaeth sylfaenol ganddo eto o ran y niferoedd y mae'r Cyngor yn gwybod amdanynt sy'n dioddef tlodi tanwydd, felly ni fydd yn gallu nodi a fu gwelliant ai peidio.

A yw'r Cyngor yn rheoli gwastraff yn effeithiol?

Pam ei bod hi'n bwysig rheoli gwastraff yn effeithiol?

- 89 Mae Llywodraeth y Cynulliad yn disgwyl i gynghorau helpu dinasyddion i ailgylchu gwastraff, ac yn casglu gwybodaeth am gyfraddau ailgylchu yn ogystal ag am y gwahanol fathau o wasanaethau a ddarperir gan y gwahanol gynghorau. Mae Llywodraeth y Cynulliad wedi gosod targedau i bob cyngor yng Nghymru ar gyfer gwella faint o wastraff sy'n cael ei ailgylchu a lleihau faint sy'n mynd i safleoedd tirlenwi. Bydd methiant i gyrraedd targedau yn debygol o arwain at gosbi'r Cyngor yn ariannol. Erbyn Mawrth 2010, roedd Llywodraeth y Cynulliad yn disgwyl i'r cynghorau ailgylchu neu gompostio 40 y cant o'r gwastraff a gesglir ac mae'n disgwyl iddynt gyrraedd 70 y cant erbyn 2025. Golyga hyn fod cynghorau nid yn unig wedi gorfod cyflwyno gwasanaethau newydd yn y blynyddoedd diwethaf ond bod angen iddynt hefyd sefydlu ffyrdd o allu cyflawni targed y tymor hwy.

A oes gan y Cyngor gynlluniau realistig i wella ei ddulliau o reoli gwastraff?

- 90 Mae'r Cyngor yn darparu detholiad o wasanaethau gwastraff i'r 59,513 o gartrefi yn y ddinas. Mae boddhad y cyhoedd gyda'r gwasanaethau yn dda, a chaiff cwynion eu monitro'n rheolaidd i fynd i'r afael ag unrhyw broblemau sy'n codi. Mae cyfranogiad y cyhoedd mewn ailgylchu/compostio yn amrywio'n sylweddol ar draws y ddinas o 18 y cant o bobl sy'n byw mewn fflatiau, i 85 y cant o bobl sy'n byw mewn mathau eraill o gartrefi. Targedir yr ardaloedd sy'n perfformio'n wael gyda'r nod o gynyddu'r nifer sy'n cymryd rhan. Mae cyfanswm y gwastraff sy'n cael ei anfon i safleoedd tirlenwi wedi bod yn gostwng ers 2003 er gwaethaf y cynnydd yn y boblogaeth.

- 91 Mae'r Cyngor wedi bod yn gwneud cynnydd cyson tuag at gyrraedd targedau gwastraff a daeth o fewn dim at gyflawni'r targed ailgylchu/compostio o 40 y cant yn 2010, gan gyrraedd cyfartaledd Cymru o 39 y cant.
- 92 Er bod cynghorau'n gallu ailgylchu neu gompostio rhai mathau o wastraff, mae gwastraff arall, a elwir yn 'wastraff gweddilliol', na chaiff ei gasglu ar hyn o bryd i'w ailgylchu neu ei gompostio. Mae'r cynghorau angen dull o ymdrin â'r gwastraff hwn er mwyn cyfyngu ar faint sy'n mynd i safleoedd tirlenwi. Mae'r Cyngor mewn partneriaeth (Prosiect Gwyrdd) â phedwar awdurdod lleol arall (Bro Morgannwg, Caerdydd, Sir Fynwy a Chaerffili) i gaffael cyfleuster trin gwastraff gweddilliol. Bydd y cyfleuster hwn yn prosesu'r gwastraff gweddilliol sydd ar hyn o bryd yn cael ei anfon i safleoedd tirlenwi. Caiff deunyddiau y gellir eu hailgylchu eu tynnu allan, a chaiff y gwastraff sy'n weddill ei drin mewn proses sy'n lleihau'r cyfaint a'r pwysau'n sylweddol. Yna, caiff y deunydd sy'n weddill ei anfon i safleoedd tirlenwi.
- 93 Mae cynlluniau yn eu lle ar gyfer cyrraedd targedau byrdymor yn y dyfodol, ond mae amheuaeth ynglŷn â pherfformiad hirdymor oni cheir newidiadau sylweddol i'r gwasanaethau a ddarperir. Bwriada'r Cyngor adolygu ei opsiynau ar gyfer cyrraedd targedau yn y dyfodol unwaith y caiff Cynllun Sector Gwastraff Trefol Llywodraeth y Cynulliad ei gwblhau. Disgwylir y bydd argymhellion allweddol yng nghynllun Llywodraeth y Cynulliad yn cysylltu'r ddarpariaeth ariannol i gynghorau â'r dulliau casglu gwastraff sy'n cael eu ffafrio gan Lywodraeth y Cynulliad. Bydd hyn yn effeithio'n sylweddol ar fforddiadwyedd yr opsiynau y gallai'r Cyngor eu hystyried. Mae'r ansicrwydd parhaus ynglŷn â faint o gyllid fydd ar gael ar gyfer rheoli gwastraff yn y dyfodol, ynghyd â'r dull o ariannu, yn bryder i'r Cyngor wrth iddo geisio datblygu cynlluniau gogyfer â chyrraedd ei dargedau gwastraff yn y dyfodol.

A fydd y Cyngor yn gallu dangos bod dulliau rheoli gwastraff wedi gwella?

- 94 Mae dangosyddion cenedlaethol allweddol yn canolbwyntio ar gyfraddau ailgylchu a chompostio; dengys y rhain fod y ganran o wastraff trefol a gafodd ei ailddedfnyddio, ei ailgylchu neu ei gompostio wedi codi o 10.1 y cant yn 2002 i 38.2 y cant erbyn Mawrth 2009. Dengys adroddiadau chwarterol ar gyfer y flwyddyn gyfredol fod y gwelliant yn cael ei gynnal.
- 95 Hefyd, mae'r Cyngor yn defnyddio amrywiaeth o fathau eraill o wybodaeth ynglŷn â boddhad defnyddwyr gwasanaethau a chyfranogiad lleol er mwyn datblygu'r gwasanaeth. Nododd feysydd lle mae'r nifer sy'n cymryd rhan mewn ailgylchu/compostio gwastraff yn isel a rhoddodd gamau ar waith i annog y cyhoedd i gyfranogi mwy. Mae crynhoi a defnyddio gwybodaeth a dethol camau effeithiol i wella perfformiad yn fater y bydd angen i'r Cyngor barhau i'w adolygu wrth gynllunio ar gyfer gwasanaethau gwastraff i'r dyfodol.

A yw'r Cyngor yn helpu i wella cysylltiadau trafndiaeth?

Pam y mae'r Cyngor yn credu ei bod hi'n bwysig gwella cysylltiadau trafndiaeth?

- 96 Casnewydd yw'r ail gyrchfan fwyaf poblogaidd i gymudwyr yng Nghymru. O gymharu â chynghorau eraill yng Nghymru, mae'r ffyrdd yng Nghasnewydd wedi bod mewn cyflwr rhesymol. Fodd bynnag, dros y blynyddoedd diwethaf, dengys ystadegau fod cyflwr y priffyrdd wedi bod yn gwaethygu. Gwnaed gwaith cynnal a chadw ar y rhan fwyaf o'r priffyrdd dros y blynyddoedd diwethaf ond roeddynt mewn perygl o waethygu'n raddol ac o ddod yn asedau sy'n dirywio.

97 Yn 2008, cydnabu'r Cyngor fod y dirywiad parhaus yng nghyflwr ei ffyrdd, palmentydd a goleuadau stryd yn gysylltiedig â diffyg cyllid digonol ar gyfer gwaith cynnal a chadw hanfodol. Bydd gwerth ffyrdd, palmentydd a goleuadau stryd yn gostwng os na chânt eu cynnal a'u cadw. Nid yw'n broblem unigryw i Gasnewydd ac mae i'w gweld ledled Cymru ar hyn o bryd. Yng Nghasnewydd, roedd cyflwr gwael y ffyrdd a'r palmentydd yn arwain at fwy a mwy o hawliadau yswiriant trydydd parti llwyddiannus yn erbyn y Cyngor, na allai'r Cyngor eu hamddiffyn.

A oes gan y Cyngor gynlluniau realistig i wella cysylltiadau trafnidiaeth?

98 Yn Chwefror 2009, penderfynodd y Cyngor ddefnyddio'i allu i fenthycu arian (benthycu darbodus) er mwyn cael y cyllid angenrheidiol i wella cyflwr ffyrdd a phalmentydd. Cynlluniwyd prosiect tair blynedd (Prosiect 21) i wella cyflwr priffyrdd ar draws y ddinas, gan osod wyneb newydd neu wella ffyrdd a phalmentydd ac ailosod goleuadau stryd, yn seiliedig ar fenthycu £21 miliwn dros 20 mlynedd. Cytunwyd ar y prosiect ym Mehefin 2009 a bu'r gwaith yn mynd rhagddo fesul ardal. Cafwyd arian ychwanegol gan Lywodraeth y Cynulliad i wella mynediad ar ffyrdd yng nghyffiniau'r Celtic Manor ar gyfer Cwpan Ryder. Roedd y cyfraddau llog yn gymharol isel ac roedd hi'n adeg dda i fenthycu arian er mwyn ymgymryd â chynnal a chadw ffyrdd, palmentydd a goleuadau stryd, asedau yr amcangyfrifir fod eu gwerth yn £6 biliwn.

99 Yn ôl asesiad y Cyngor ei hun, bydd yn gallu talu'r arian yn ôl am fod trwsio diffygion presennol ac atal dirywiad yn lleihau'r nifer posibl o atgyweiriadau brys fydd eu hangen a chost hawliadau yswiriant na all eu hamddiffyn.

A fydd y Cyngor yn gallu dangos bod cysylltiadau trafnidiaeth wedi gwella?

100 Mae'r Cyngor yn mesur llwyddiant y prosiect hwn nid yn unig yn ôl yr arolwg blynyddol o gyflwr y ffyrdd ond hefyd drwy gofnodi, adolygu a monitro nifer y cwynion mae'n eu derbyn gan y cyhoedd ynghylch diffygion ar y priffyrdd, megis tyllau a draeniau wedi'u blocio a'r hyn a noda o'i raglen ei hun o archwiliadau. Mae hefyd yn adolygu cofnodion o waith brys a chyffredinol a wnaed a'r nifer o hawliadau a wnaed yn erbyn y Cyngor. Hefyd, mae'r Cyngor wedi cynnal arolygon boddhad cwsmeriaid yn yr ardaloedd lle cwblhawyd y gwaith yn gofyn barn yr ymatebwyr am y gwaith a'r modd y cafodd ei gyflawni. Dychwelir cyfartaledd o 14 y cant o'r cardiau arolwg sy'n cael eu postio, gyda'r rhan fwyaf ohonynt yn dangos bod yr ymatebwyr yn fodlon.

101 Er y bydd Prosiect 21 yn sicr o wella cyflwr ffyrdd yn y tymor byr, mae llwyddiant hirdymor yn gysylltiedig â gallu'r Cyngor i sicrhau fod digon o waith cynnal a chadw ataliol yn digwydd yn y dyfodol i ddiogelu'r buddsoddiad a wnaed.

102 Mae Prosiect 21 yn cyfrannu at amcan gwella'r Cyngor 'Cysylltiadau Trafnidiaeth Da' sydd â'r nod o sicrhau fod gan Gasnewydd economi lewyrchus a ffyniannus drwy fod â rhwydwaith trafnidiaeth da yn gyffredinol. I fesur llwyddiant yr amcan gwella hwn, mae'r Cyngor yn mesur y nifer o bobl a anafwyd a damweiniau traffig, cyflwr ffisegol y rhwydwaith ffyrdd yng Nghasnewydd a'r cylch a chyfeintiau traffig yng Nghasnewydd a'r cylch. Mae'r mesurau'n canolbwyntio ar drafnidiaeth ffordd yn unig ac nid ydynt yn ystyried mathau eraill o drafnidiaeth. I'r Cyngor gael darlun llawnach, bydd angen ymestyn y mesurau a ddefnyddia i werthuso pa un a oes gan y ddinas gysylltiadau trafnidiaeth da.

Beth ddylai Cyngor Dinas Casnewydd ei wneud?

103 O ystyried yr amrywiaeth eang o wasanaethau a ddarperir a'r heriau sy'n wynebu Cyngor Dinas Casnewydd, byddai'n anarferol pe na fyddem yn dod o hyd i bethau sydd angen eu gwella. Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn gallu:

- argymhell i Weinidogion Llywodraeth y Cynulliad y dylent ymyrryd mewn rhyw ffordd;
- cynnal arolygiad arbennig a chyhoeddi'r adroddiad gydag argymhellion manwl;
- gwneud argymhellion ffurfiol ar gyfer gwella - os gwneir argymhelliad ffurfiol, mae'n rhaid i'r Cyngor ymateb i'r argymhelliad hwnnw yn gyhoeddus o fewn 30 diwrnod; a
- gwneud cynigion ar gyfer gwella - os ydym yn gwneud cynigion i'r Cyngor, byddem yn disgwyl iddynt fynd i'r afael â nhw a byddwn yn dilyn yr hyn sy'n digwydd.

104 Yn dilyn ein gwaith, mae'r Archwilydd Cyffredinol yn cynnig y dylai'r Cyngor ystyried y cyfleoedd canlynol ar gyfer gwella:

Cynigion a wnaed yn ein gwaith cynharach

- pennu blaenoriaethau clir ar gyfer gweithredu yng nghyd-destun y gostyngiad yn yr adnoddau sydd ar gael;
- pennu mesurau canlyniadau sy'n galluogi'r Cyngor i nodi effaith ei weithgarwch ar y gymuned a defnyddwyr gwasanaethau;
- sefydlu trefniadau corfforaethol ar gyfer ariannu, diweddarau a datblygu pob TGCh; a
- sicrhau bod cynlluniau busnes y gwasanaethau'n cynnwys amcangyfrifon realistig o'r adnoddau ariannol, staff ac adnoddau eraill sydd eu hangen i gyflawni gwaith arfaethedig.

Cynigion newydd

- er mwyn bodloni gofynion y Cynulliad, dylai'r Cyngor nodi pa rai o'i welliannau arfaethedig o adroddiadau monitro chwarterol ei gynllun gwella y dylid eu hystyried yn 'amcanion gwella' at ddibenion y Mesur Llywodraeth Leol.

Atodiad 1

Gwybodaeth am Archwilydd Cyffredinol Cymru a'r adroddiad hwn

Yr Archwilydd Cyffredinol

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn annibynnol ar y llywodraeth ac mae'n cael ei benodi gan Ei Mawrhydi Y Frenhines. Mae'n arwain Swyddfa Archwilio Cymru ac mae'n atebol i Bwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus y Cynulliad Cenedlaethol am waith Swyddfa Archwilio Cymru.

Mae Swyddfa Archwilio Cymru yn helpu'r Archwilydd Cyffredinol drwy archwilio amryw o agweddau ar sut mae cyrff cyhoeddus yng Nghymru yn gweithio. Crëwyd Swyddfa Archwilio Cymru yn 2005 drwy uno'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol yng Nghymru a'r Comisiwn Archwilio yng Nghymru.

Yr Archwilydd Cyffredinol yw archwilydd allanol Llywodraeth y Cynulliad a'i chyrrff cyhoeddus noddedig a chysylltiedig; Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru a chyrrff y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (GIG) yng Nghymru. Mae hefyd yn penodi archwilydd allanol cyrff llywodraeth leol yng Nghymru, gan gynnwys awdurdodau unedol, yr heddlu, awdurdodau prawf, awdurdodau tân ac achub, parciau cenedlaethol a chynghorau cymuned.

Yn ogystal ag ymgymryd ag archwilio ariannol, rôl yr Archwilydd Cyffredinol yw edrych ar sut mae cyrff cyhoeddus yn rheoli ac yn gwario arian y cyhoedd, gan gynnwys sicrhau gwerth am arian wrth ddarparu gwasanaethau cyhoeddus. Mae'r ddeddf a greodd Swyddfa Archwilio Cymru hefyd wedi ymestyn pwerau'r Archwilydd Cyffredinol i ddilyn y 'bunt gyhoeddus' ble bynnag mae'n mynd.

Yr adroddiad hwn

Cyflwynodd Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 (y Mesur) gyfrifoldebau newydd i'r Archwilydd Cyffredinol, gan gynnwys cyfrifoldeb i gyhoeddi ei asesiad o drefniadau pob cyngor/awdurdod i sicrhau gwelliant parhaus.

Mae'r adroddiad hwn wedi'i lunio gan Archwilydd Cyffredinol Cymru i gyflawni ei ddyletswyddau o dan adran 24 o'r Mesur. Mae'r adroddiad hefyd yn cyflawni dyletswyddau o dan adran 19, sef; cyhoeddi adroddiad sy'n ardystio ei fod wedi cynnal archwiliad o dan adran 17 ac asesiad gwella o dan adran 18.

Mae gan awdurdodau gwella ddyletswydd gyffredinol i 'wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus wrth arfer [eu] swyddogaethau'. Diffinnir awdurdodau gwella fel awdurdodau lleol, parciau cenedlaethol ac awdurdodau tân ac achub.

Yr Asesiad Gwella blynyddol yw'r prif ddarn o waith ar gyfer Swyddfa Archwilio Cymru, i alluogi'r Archwilydd Cyffredinol i gyflawni ei ddyletswyddau.¹

¹ Cynhelir yr asesiad hwn ar gyfer pob awdurdod gwella, o dan adran 18 o'r Mesur. Bydd yn penderfynu a yw pob awdurdod yn debygol o gydymffurfio â gofynion Rhan 1 o'r Mesur. Bydd Swyddfa Archwilio Cymru hefyd yn cynnal archwiliad o wybodaeth am welliannau a chynllunio ar gyfer gwella, fel sy'n ofynnol o dan adran 17 o'r Mesur, er mwyn penderfynu a yw'r awdurdod wedi cyflawni ei ddyletswyddau o dan adran 15(1) i (7).

Bydd hyn yn cael ei lywio gan:

- Asesiad Corfforaethol – asesiad sy'n edrych i'r dyfodol i weld pa mor debygol yw awdurdod o gydymffurfio â'i ddyletswydd i wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus; ac
- Asesiad o Berfformiad – asesiad ôl-weithredol i weld a yw awdurdod wedi cyflawni'r gwelliannau a gynlluniwyd ganddo er mwyn llywio barn ar sut y llwyddodd yr awdurdod i wella.

Cyhoeddir canlyniad(au) yr asesiadau hyn gan yr Archwilydd Cyffredinol fel Adroddiad(au) Archwilio ac Asesu, o dan adran 19 o'r Mesur. Wrth gyhoeddi'r adroddiad hwn o dan adran 19, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru yn ardystio ein bod wedi cynnal archwiliad adran 17 ac asesiad gwella adran 18.

Dan rai amgylchiadau gall yr Archwilydd Cyffredinol hefyd gynnal Arolygiadau Arbennig (o dan adran 21), a bydd yn cyflwyno adroddiad i'r awdurdodau a'r Gweinidogion perthnasol, gan ei gyhoeddi o bosibl (o dan adran 22).

Bydd yr Archwilydd Cyffredinol yn crynhoi Adroddiadau Archwilio ac Asesu yn yr Adroddiad Gwella Blynyddol hwn a gyhoeddir (o dan adran 24). Bydd hwn hefyd yn crynhoi unrhyw adroddiadau o Arolygiadau Arbennig.

Un o weithgareddau atodol pwysig Swyddfa Archwilio Cymru yw cydgysylltu gwaith asesu a gwaith rheoliadol (sy'n ofynnol o dan adran 23) sy'n ystyried rhaglen waith gyffredinol pob rheoleiddiwr perthnasol mewn awdurdod gwella. Bydd yr Archwilydd Cyffredinol hefyd yn ystyried gwybodaeth a rennir gan reoleiddwyr perthnasol (o dan adran 33) yn ei asesiadau a bydd yr adroddiad hwn yn crynhoi unrhyw waith a wnaed ganddynt.

Bydd yr Archwilydd Cyffredinol yn nodi'r ffi ar gyfer gwaith archwilio perfformiad a wnaed ganddo i gyflawni ei ddyletswyddau o dan y Mesur ym mhob awdurdod lleol mewn Rhaglen Reoleiddio y cytunir arni bob blwyddyn â'r awdurdod. Ar hyn o bryd, disgwylir i'r ffi ar gyfer mis Tachwedd 2009 hyd at fis Mawrth 2011 fod yn unol â'r swm a nodir yn y Rhaglen Reoleiddio.

Atodiad 2

Gwybodaeth ddefnyddiol am Gasnewydd a Chyngor Dinas Casnewydd

Mae'r Cyngor yn gwario tua £318 miliwn y flwyddyn (2008-09). Mae hyn yn cyfateb i tua £2,258 y preswlydd. Yn 2008-09, gwariodd y Cyngor £51 miliwn ar eitemau cyfalaf hefyd.

£921.39 y flwyddyn oedd y dreth gyngor band D gyfartalog yng Nghasnewydd yn 2009-10; bydd yn codi 3.92 y cant i £957.49 y flwyddyn yn 2010-11. Mae saith deg chwech y cant o dai Casnewydd yn perthyn i fandiau treth gyngor A i D.

Mae yna 50 o gynghorwyr ar gyfer Casnewydd sy'n cynrychioli'r gymuned ac yn gwneud penderfyniadau ynghylch blaenoriaethau a'r defnydd o adnoddau. Mae'r Cyngor yn cynnwys aelodau o'r grwpiau gwleidyddol canlynol: Llafur - 21; Ceidwadwyr - 17; Democratiaid Rhyddfrydol - 9; Annibynnol - dau a Phlaid Cymru - un. Rheolir y weinyddiaeth ar hyn o bryd gan gynghrair o gynghorwyr o'r Blaid Geidwadol a'r Democratiaid Rhyddfrydol.

Rheolwr Gyfarwyddwr Casnewydd yw Tracey Lee.

Y Cyfarwyddwyr Corfforaethol yw:

- Adfywio a'r Amgylchedd: Sheila Davies
- Gofal a Chwsmeriaid a Chyfarwyddwr Statudol Gwasanaethau Cymdeithasol: Stewart Greenwell; Pobl Ifanc a Pherfformiad: Alasdair Bovaird

Aelodau Cynulliad Casnewydd yw:

- John Griffiths, Dwyrain Casnewydd, Plaid Lafur
- Rosemary Butler, Gorllewin Casnewydd, Plaid Lafur

Aelodau Seneddol Casnewydd yw:

- Jessica Morden, Dwyrain Casnewydd, Llafur
- Paul Flynn, Gorllewin Casnewydd, Llafur

Am ragor o wybodaeth, gweler gwefan y Cyngor ei hun www.newport.gov.uk neu cysylltwch â'r Cyngor yn Y Ganolfan Ddinesig, Casnewydd, NP20 4UR.

Atodiad 3

Asesiad Corfforaethol yr Archwilydd Cyffredinol

Nodir isod brif gasgliadau Asesiad Corfforaethol yr Archwilydd Cyffredinol a gyflwynwyd i'r Cyngor ym Mehefin 2010:

Mae'r arweinyddiaeth newydd yn dangos arwyddion o gryfder, gan osod sylfaen newid trawsnewidiol a mynd i'r afael â materion hirsefydlog o ran rheoli ariannol, ond mae angen i Gyngor Dinas Casnewydd roi cynlluniau ariannol tymor canolig ar waith a datblygu ei strategaethau a'i raglen newid ymhellach i danategu gwelliant a'i gynnal.

Sut mae'r Cyngor wedi mynd ati i sicrhau gwelliant dros amser

Wrth addasu i newid gwleidyddol sylweddol a newid sylweddol o ran swyddogion, mae'r Cyngor wedi pennu cyllideb wedi'i mantoli, wedi parhau i ganolbwyntio ar flaenoriaethau allweddol, ac wedi dechrau datblygu a gweithredu fframwaith ar gyfer newid trawsnewidiol:

- mae arweinyddiaeth wleidyddol newydd a'r arweinyddiaeth newydd o ran swyddogion yn ymsefydlu, yn cynnal perfformiad ac yn cyflawni prosiectau â blaenoriaeth;
- cynhyrchodd y Cyngor gyllideb fantoledig ar gyfer 2010-11, am y tro cyntaf, ac mae'n parhau i lywio'i agenda effeithiolrwydd; ac
- mae'r Tîm Rheoli Corfforaethol newydd yn sefydlu fframwaith ar gyfer newid, gan sicrhau bod gweithgarwch gwasanaethau yn gydnaws â gweledigaeth o newid trawsnewidiol.

Dadansoddi trefniadau'r Cyngor i'w helpu i wella

Ceir arwyddion y dylai'r arweinyddiaeth gref a'r fframwaith ar gyfer newid sy'n dod i'r amlwg, wedi'u tanategu gan fwy o bwyslais ar reoli cyllidebau, effeithlonrwydd a gweithio mewn partneriaeth gefnogi gwelliant, ond mae angen datblygu'r trefniadau cynllunio ariannol tymor canolig, mesurau canlyniadau a'r strategaethau rheoli pobl, rheoli asedau a rheoli TGCh ymhellach:

- mae arweinyddiaeth gref, gweledigaeth a fframwaith sy'n datblygu ar gyfer y dyfodol, gwell trefniadau rheoli cyllideb a gweithio mewn partneriaeth yn cefnogi gwelliant;
- mae'r Cyngor yn gwneud cynnydd da o ran datblygu cynlluniau ariannol tymor canolig a gwerthuso cynaliadwyedd tymor hwy gweithgarwch, ond nid yw'r mesurau perfformiad presennol yn dangos y canlyniadau'n glir hyd yma;
- cymerir camau i wella trefniadau rheoli asedau corfforaethol ond, hyd yma, nid yw'r trefniadau'n gydnaws â chyflawni'r rhaglen newid; ac
- nid yw'r trefniadau presennol ar gyfer rheoli pobl a rheoli TGCh yn strategol yn gydnaws â chyflawni'r rhaglen newid.

I weld yr adroddiad llawn, ewch i'n gwefan www.wao.gov.uk neu cysylltwch â ni yn y cyfeiriad ar glawr mewnol yr adroddiad hwn.

Atodiad 4

Llythyr Archwilio Blynyddol Cyngor Dinas Casnewydd

Y Cyngorydd Matthew Evans
Arweinydd y Cyngor a Chadeirydd y Cabinet
Cyngor Dinas Casnewydd
Y Ganolfan Ddinesig
Casnewydd
De Cymru
NP20 4UR

Annwyl Gyngorydd

Llythyr Archwilio Blynyddol at Aelodau Cyngor Dinas Casnewydd

Mae Mesur Llywodraeth Leol 2009 wedi rhoi'r cyfle i Swyddfa Archwilio Cymru ailfeddwl am y ffordd y dylid cyflwyno canfyddiadau'r archwiliad ariannol a'r gwaith archwilio perfformiad i gyrrff llywodraeth leol. Fel y gwyddoch, bydd Archwilydd Cyffredinol Cymru yn cyhoeddi Adroddiad Gwella Blynyddol i bob awdurdod lleol yn ystod y misoedd nesaf a bydd llawer o'r materion a nodwyd yn Llythyr Archwilio Blynyddol yr Archwilydd Penodedig yn draddodiadol yn cael eu cynnwys yn yr adroddiad hwnnw. Felly, rwyf wedi achub ar y cyfle i grynhoi'r negeseuon allweddol sy'n deillio o gyfrifoldebau statudol yr Archwilydd Penodedig (y cyfrifon, y casgliad gwerth am arian a'r archwiliad o'r cynllun gwella) yn y llythyr byr hwn sy'n ffurfio'r Llythyr Archwilio Blynyddol. Bwriedir i'r llythyr fod yn ddogfen annibynnol, ond caiff ei gyflwyno i'r Cyngor a'r cyhoedd fel rhan o'r Adroddiad Gwella Blynyddol ac felly mae'n cyflawni fy nyletswyddau o ran cyflwyno adroddiad o dan y Cod Ymarfer Archwilio.

Cydymffurfiodd Cyngor Dinas Casnewydd â'r gofynion adrodd sy'n gysylltiedig â threfniadau ariannol a gwella perfformiad

Cyfrifoldeb y Cyngor yw:

- rhoi systemau rheoli mewnol ar waith i sicrhau rheoleidd-dra a chyfreithlondeb trafodion a sicrhau bod ei asedau'n ddiogel;
- cadw cofnodion cyrifyddu cywir;
- paratoi Datganiad o Gyfrifon yn unol â'r gofynion perthnasol;
- sefydlu ac adolygu trefniadau priodol i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd wrth ddefnyddio adnoddau; a
- chyhoeddi ei Gynllun Gwella erbyn 31 Hydref.



Mae'r Cod Ymarfer Archwilio a gyhoeddwyd gan yr Archwilydd Cyffredinol (y Cod) yn ei gwneud hi'n ofynnol i mi:

- ddarparu barn archwilio ar y datganiadau cyfrifyddu;
- adolygu trefniadau'r Cyngor i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd wrth ddefnyddio adnoddau;
- ystyried a yw'r Cynllun Gwella wedi'i baratoi a'i gyhoeddi yn unol â gofynion statudol; a
- chyhoeddi tystysgrif yn cadarnhau fy mod wedi cwblhau'r gwaith o archwilio'r cyfrifon.


Ar 30 Tachwedd 2010, cyhoeddais farn archwilio ddiamod ar y datganiadau cyfrifyddu, yn cadarnhau eu bod yn adlewyrchiad cywir a theg o drafodion ariannol y Cyngor.

Dyma'r prif ganfyddiadau:

- mae angen gwella ansawdd y datganiadau ariannol drafft, yn enwedig mewn perthynas â chyfrifyddu ar gyfer asedau sefydlog;
- er bod nifer o wallau sylweddol wedi'u cywiro fel rhan o'r broses archwilio, parhâi'r datganiadau ariannol terfynol i gynnwys 10 gwall heb eu cywiro, er nad ystyrid bod y rhain yn berthnasol i'r datganiadau cyfrifyddu; a
- pharatowyd y datganiad o Gyfrifon y Llywodraeth Gyfan yn effeithiol ac yn unol ag amserlen y Cynulliad.

Darparwyd cyfrifon drafft ar ein cyfer erbyn y dyddiad terfyn, sef 30 Mehefin. Fodd bynnag, roedd gwallau arwyddocaol ynddynt ac mae lle i wella'r ansawdd cyffredinol. Er bod y gwendidau ansoddol hyn yn ymwneud yn bennaf â threfniadau cyfrifyddu asedau sefydlog, ymestynnwyd y broses archwilio gan faterion eraill megis diffyg adolygiad sicrhau ansawdd cadarn o'r cyfrifon drafft ac absenoldeb hir swyddogion yn ystod yr archwiliad.

Yn dilyn ein harchwiliadau ar gyfer 2007-08 a 2008-09, cofnodwyd gwendidau sylweddol yn nhrefniadau cyfrifyddu asedau sefydlog y Cyngor. Ers hynny, bu'r Cyngor yn cysoni'r data rhwng system (Logotech) ariannol y Gofrestr Asedau Sefydlog (FAR) a'r gronfa ddata asedau Ystadau gysylltiedig, gyda swyddogion yn cyflwyno adroddiadau ar gynnydd yr ymarfer cysoni i'r Fforwm Trosolwg a Chraffu (Adnoddau) yn gyfnodol. Fodd bynnag, nid oedd y broses gysoni'n gyflawn mewn pryd gogyfer â chynhyrchu'r cyfrifon drafft ym mis Mehefin, ac o ganlyniad, cytunwyd y byddai canlyniadau'r ymarfer, a'r addasiadau cyfrifyddu arfaethedig, yn cael eu cyflwyno yn ystod yr archwiliad i mi eu hadolygu.



Cyflwynwyd canlyniadau'r broses gysoni a'r addasiadau cyfrifyddu cysylltiedig i mi, wedi peth oedi, ar 10 Medi 2010. Yn sgil gwaith archwilio cychwynnol daeth yn amlwg yn fuan fod y broses gysoni'n sylfaenol ddiffygiol. Cadarnhawyd hyn gan swyddogion a dechreuwyd ar broses gysoni ddiwygiedig. Golygodd hyn, ynghyd â mater cyfrifyddu heb ei ddatrys yn ymwneud â hawliadau cyflog cyfartal, na ellid cwblhau'r archwiliad erbyn y terfyn amser statudol. Fodd bynnag, llwyddwyd i gydymffurfio â'r terfyn amser ar gyfer cyhoeddi trwy gyhoeddi'r cyfrifon drafft ar 30 Medi 2010.

Ar ôl sawl gwaith, cwblhawyd y gwaith cysoni diwygiedig ar yr asedau sefydlog a'i gyflwyno i mi at ddibenion archwilio ar 19 Hydref 2010. Effaith y cywiriadau a oedd eu hangen o ganlyniad i'r broses gysoni hon oedd gostyngiad arfaethedig o £97 miliwn yng ngwerth asedau sefydlog, ond cwtogwyd y ffigwr yn ddiweddarach i £80 miliwn yn dilyn profion archwilio manwl.

Arweiniodd hyn, ynghyd â chywiro gwallau eraill yn ymwneud ag asedau sefydlog a nodwyd yn ystod ein harchwiliad, at ostyngiad net cyffredinol o £66.5 miliwn yn asedau sefydlog y Cyngor.

Mae'r Cyngor wrthi'n dyrannu adnoddau ychwanegol i'r maes cyfrifyddu hwn ac mae'n bwysig mynd i'r afael â'r gwendidau hyn cyn y bydd datganiadau ariannol 2010-11 yn cael eu cynhyrchu, yn enwedig yn sgil cyflwyno'r Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (IFRS). Hefyd, mae'n bwysig mynd i'r afael â'r materion hyn er mwyn osgoi ailadrodd yr anawsterau a'r oedi yn sgil hynny a ddigwyddodd yn ystod archwiliad y flwyddyn hon. Cyflwynais adroddiad ar y prif faterion sy'n codi o fy archwiliad o'r datganiad o gyfrifon i'r Fforwm Trosolwg a Chraffu (Adnoddau) ar 29 Tachwedd 2010.


Cafodd fy adolygiad o drefniadau'r Cyngor i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd ei seilio ar y gwaith archwilio a wnaed ar y cyfrifon yn ogystal â dibynnu ar y gwaith a gwblhawyd fel rhan o'r Mesur Llywodraeth Leol. Bydd prif ganfyddiadau'r gwaith hwn i'w gweld yn yr Adroddiad Gwella Blynyddol.

Mae Cynllun Gwella 2010-11 y Cyngor yn bodloni'r gofynion statudol ac yn cynnwys adroddiad ar ei berfformiad yn 2009-10. Cynhwysir awgrymiadau ar gyfer gwelliannau pellach i'w gweld yn yr Adroddiad Gwella Blynyddol.

Cyflawnais yr archwiliad o'r datganiad o gyfrifon y Cyngor yn unol â gofynion Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 a'r Cod Ymarfer Archwilio a gyhoeddwyd gan Archwilydd Cyffredinol Cymru. O ganlyniad i'r gwaith ychwanegol a wnaed ar yr archwiliad o asedau sefydlog, bydd ffi archwiliad ariannol 2009-10 yn uwch na'r hyn a nodir yn y Strategaeth Archwilio Ariannol.

Yr eiddoch yn gywir

Ann-Marie Harkin
Partner Ymgysylltu
Dros ac ar ran yr Archwilydd Penodedig
30 Tachwedd 2010
cc. Tracey Lee, Rheolwr Gyfarwyddwr
Chris Barton, Pennaeth Cyllid (Swyddog s151)



Mae gan etholwyr lleol hawl i weld cyfrifon y Cyngor. Pan fydd y Cyngor wedi llunio ei gyfrifon terfynol ar gyfer y flwyddyn ariannol flaenorol, tua mis Mehefin neu fis Gorffennaf fel arfer, rhaid iddo hysbysebu'r ffaith eu bod ar gael i bobl fwrw golwg drostynt. Gallwch gael copïau o'r cyfrifon gan y Cyngor; gallwch hefyd archwilio pob llyfr, gweithred, contract, bil, taleb a derbynneb sy'n berthnasol iddynt. Yna bydd gennych 20 diwrnod gwaith i fwrw golwg dros y cyfrifon a'r dogfennau atodol. Gallwch ofyn cwestiynau i'r archwilydd am y cyfrifon sy'n berthnasol i'r flwyddyn a archwilir. Er enghraifft, gallwch ddweud wrth yr archwilydd os credwch fod rhywbeth o'i le ar y cyfrifon neu ynghylch gwastraff ac aneffeithlonrwydd yn y modd y mae'r cyngor yn rhedeg ei wasanaethau. Am ragor o wybodaeth gweler taflen Swyddfa Archwilio Cymru, *Cyfrifon Cyngorau: Eich Hawliau* ar ein gwefan www.wao.gov.uk neu drwy ysgrifennu atom yn y cyfeiriad ar gefn yr adroddiad hwn.

Atodiad 5

Amcanion gwella Cyngor Dinas Casnewydd

Teimlo'n dda am Gasnewydd	Prawf o lwyddiant
Canol Dinas Bywiog	Mae Casnewydd yn ddinas unigryw a bywiog
Mwy o Fusnesau, Mwy o Swyddi	Mae gan Gasnewydd economi lewyrchus a ffyniannus Mae mwy o bobl yng Nghasnewydd yn cymryd rhan yn yr economi leol
Addysg Ardderchog i Bawb	Mae plant a phobl ifanc yn llwyddo yn yr ysgol neu yn y gwaith Mae oedolion yng Nghasnewydd yn llwyddiannus ac yn gwireddu eu potensial
Dinas Ddiogel ac Iach	Mae pobl Casnewydd yn iach ac yn ffynnu Mae pobl Casnewydd yn byw mewn cymuned ddiogel a chynhwysol
Delwedd Gadarnhaol	Mae Casnewydd yn ddinas unigryw a bywiog
Cysylltiadau Trafnidiaeth Da	Mae gan Gasnewydd economi lewyrchus a ffyniannus
Addas ar gyfer y dyfodol	Prawf o lwyddiant
Cwsmeriaid	Mae dinasyddion Casnewydd yn fodlon â gwasanaethau'r Cyngor Mae'r gwasanaethau'n gydgyssylltiedig ac wedi'u llunio yn ôl anghenion y cwsmer
Perfformiad	Mae'r Cyngor yn darparu cyllideb wedi'i mantoli Mae gwasanaethau'r Cyngor yn effeithlon ac yn cynnig gwerth am arian
Chi	Mae gweithwyr Cyngor Dinas Casnewydd yn cyrraedd eu potensial llawn

Source: Newport City Council Improvement Plan 2010-11

Atodiad 6

Cyfeiriadau

Daw'r holl ddata y cyfeirir ato yn yr adroddiad o un o'r ffynonellau canlynol:

- Llywodraeth Cynulliad Cymru, StatsCymru
- Llywodraeth Cynulliad Cymru, crynodeb o ystadegau ardaloedd lleol
- Gwefannau a chynlluniau gwella'r Awdurdod Gwella ei hun
- The Wales Yearbook
- Y Swyddfa Gartref
- Gwasanaeth Ymchwil yr Aelodau
- Y Swyddfa Ystadegau Gwladol